

ECO'R WYDDFA

RHIF 334

MEHEFIN 2006

PRIS 40c

HANES BYWYD GŴR O FRO'R ECO YN DESTUN FFILM

Stori dyn gafodd ei alltudio am
ddwyn ffesant o dir Y Faenol.

BYDD hanes anhygoel un o gymeriadau Bro'r Eco yn destun ffilm arloesol fydd i'w dangos ar S4C dros y Nadolig.

Mae aelodau o griw cynhyrchu cwmni Sianco o Gaernarfon newydd ddychwelyd o Batagonia ac Awstralia ble y buont yn dilyn ôl troed gŵr o'r enw Ellis Williams a fu'n byw ar fferm Gors yn ardal Y Waun, rhwng Penisarwaun a Llanddeiniolen.

Gorfodwyd Ellis i adael Cymru yn 1908 am iddo ddwyn ffesant o dir plas Y Faenol ger Bangor. Aeth i Batagonia i weithio fel gaucho ac yna i Awstralia ble y cofrestrodd gyda'r fyddin cyn cael ei ladd yn Ffrainc yn 1918. Fe'i claddwyd ym mynwent Hangard Wood ychydig cyn i'r Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben.

Bydd y ffilm awr a hanner o hyd, *Llythyrau Ellis Williams*, yn seiliedig ar gyfres o lythyrau a anfonodd Ellis adref i'w deulu a'i ffrindiau yn cofnodi ei hanes ar ei deithiau. Bryn Fôn yw'r storiwr a fydd yn dilyn llwybrau Ellis Williams ar gefn motor-beic er mwyn ceisio dod i adnabod awdur rhyfeddol y llythyrau yn well, a phortreadir Ellis gan yr actor a'r canwr, Dyfrig Evans. Bydd y ffilm hefyd yn torri tir newydd drwy gyfuno nifer o genres megis drama, dogfen, cerddoriaeth ac archif hanesyddol.

Ond yn ôl y cynhyrchydd, Alun 'Shardun' Huws, darllen wrthygl yn *Eco'r Wyddfa* ychydig flynyddoedd yn ôl a ysbrydolodd y ffilm.

'Fe ges i fy nghyfareddu gan y stori ac fe es ati wedyn i wncud mwy o ymchwil i hanes Ellis yn Archifdy Caernarfon,' cglura Alun, a ddaw'n wreiddiol o Benrhyndeudraeth.

'Mae'n stori draddodiadol dda efo dechrau, canol a diwedd iddi, gyda'r cyfan wedi digwydd o fewn cyfnod o ddeng mlynedd pan



Ellis Williams y gaucho ym
Mhatagonia.

adawodd Ellis Gymru yn 28 mlwydd oed i'r cyfnod pan y'i lladdwyd ar y Somme yn 38 oed,' ychwanega.

Teithiodd Alun, Bryn Fôn a rholwr y cynhyrchiad, Derwyn Williams, draw i Batagonia ac Awstralia yn ddiweddar gan ddod ar draws nifer o ddarganfyddiadau rhyfeddol oedd yn fodd iddynt ddysgu mwy am fywyd a phersonoliaeth Ellis Williams.

'Roedd hon yn recce llwyddiannus iawn, a hynny yn bennaf oherwydd agwedd y bobl yn y ddwy wlad - eu parodrwydd i helpu a'u croeso cynnes,' meddai Alun. 'Drwy help y bobl fe lwyddon ni i ffeindio'r tŷ lle'r oedd Ellis wedi bod yn aros gyda'i ffrind, David Lloyd Jones, yn

HELP PLIS!

Rydym angen gwirfoddolwyr ar fyrder i sicrhau parhad *Eco'r Wyddfa*.

Mae'r Eco'n bapur poblogaidd, sy'n gwerthu dros 2000 copi bob mis. Mae'n talu'i ffordd, gydag ychydig arian wrth gefn ar gyfer diwrnod glawog. OND ychydig iawn o wirfoddolwyr sy'n ei gynhyrchu, ac maen nhw'n teimlo'r straen yn arw. Nid yw'n deg disgwyl iddynt barhau heb gymorth buan.

Medd Arwel Jones, cadeirydd ac un o sefydlwyr *Eco'r Wyddfa*, 'Dim ond ychydig oriau bob mis a olyga'r gwaith. Mae joban ar gael i bawb - hel newyddion, tynnu lluniau, paratoi layouts, plygu, dosbarthu, hel adverts, gwerthu a gweinyddu, i enwi dim ond rhai.

Rydym yn chwilio am genhedlaeth newydd o wirfoddolwyr - pobol gydag ychydig o oriau sbar bob mis. Mae'n lot o hwyl ac yn gyfraniad gwerth chweil i fywyd y fro.

Os gallwch chi helpu rhwch eich enw i unrhyw swyddog o'r papur a enwir ar dudalen 2. Siaradwch â'ch ffrindiau a dewch yn llw. Diolch yn fawr!'



Y bwrdd lle'r arferai Ellis sgwennu ei lythyrau.

Nolafon, Dyffryn Chubut ym Mhatagonia. Yn rhyfeddol iawn doedd neb wedi cyffwrdd y lle ers amser maith ac roedd lot o'r hen greiriau yn dal yno, gan gynnwys y bwrdd lle'r arferai Ellis sgwennu ei lythyrau.'

Roedd gweld y pethau yma i gyd yn cryfhau y synnwyr oedd gan Alun o Ellis fel anturiaethwr a rhywun di-ofn.

'Roedd wedi gorfod gadael ei gartref yn y lle cyntaf ond roedd rhywbeth "tyff" amdano, a dyma beth oedd yn apelio ata i o ran ei gymeriad. Roedd o'n rebel hefyd ac yn gwrthod cydymffurfio i ffasiynau'r oes. Er bod Ellis yn ymwneud rhywfaint â Chymry parchus yr eisteddfod a'r capel yn y Wladfa roedd yn well ganddo gwmni'r gauchos crwydrol.

'Roedd hefyd yn ddyn galluog, ac er na chafodd lot o addysg

ffurfiol roedd yn gerddor gwyh ac yn gallu chwarae'r ffidil a hefyd yn ganwr o fri, ac fe alla i ei ddychmygu yn canu i'r gauchos o gwmpas y tân.'

Erbyn hyn mae'r stori yn mynd o nerth i nerth â'r cwmni teledu yn darganfod mwy am hanes rhyfeddol Ellis o wythnos i wythnos. Yn ddiweddar cysylltodd nai uniongyrchol Ellis â nhw, sef yr awdur a'r hanesydd lleol, John Ellis Williams, o Lanrug. Roedd Ellis Williams yn ewythr cyfan iddo gan fod ei dad, Joseph, yn frawd ieuengaf i Ellis, a'r ddau ohonynt wedi eu magu yn Gors. Ym meddiant John a'i deulu mae'r dog tag a wisgai Ellis pan laddwyd o yn Ffrainc, ei fedalau ac amlen gyda'r enw 'Private Ellis Williams' a anfonwyd at ei deulu gyda'i ciddo yn dilyn ei farwolaeth.



Derwyn, Alun a Bryn Fôn.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 334
MEHEFIN 2006**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872279)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eilion Roberts,
Sŵn-y-Gwynn (876746)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(075304)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(072407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 19 MEHEFIN
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 29 MEHEFIN

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Gorffennaf	19 Mehefin	29 Mehefin	Bethel	Geraint Elis	(01248) 670 726

Llythyrau

Golwg
Blwch Post 4
Llanbedr Post Steffan

Rhowch Wybod i Gymru Gyfan

Annwyl Ffrindiau
Mae'n bleser gan y cylchgrawn
Golwg gynnig gwasanaeth hollol
newydd i siaradwyr Cymraeg –
y cyfle i gyfarch, dathlu a
chofio.

Rydym yn dechrau adran
newydd lle gallwch chi gynnwys
cyfarchion a negeseuon
personol – i roi gwybod am
ddigwyddiadau hapus, am
lwyddiannau ac am
brofedigaethau. O ennill gradd
neu briodi i roi gwybod am golli
perthynas.

Does yr un papur dyddiol yn
gwneud hyn yn llwyddiannus i
Gymru gyfan, felly gobeithio y
gall *Golwg* lenwi'r bwlch. Gan
fod llawer rhagor bellach yn
symud o le i le i fyw a gweithio
ac yn adnabod pobol ar draws y
wlad, ryden ni'n hyderus y bydd
hyn o fudd.

Mae'r pris am gynnwys
gwybodaeth yn rhesymol iawn.
Cysylltwch â fi ar 01570 423529
i gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,
MARY DAVIES

Cwmni Da
Cae Llenor
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr
Tybed oes gennych chi llythyrau
neu ddyddiaduron yn adrodd
profiad perthynas neu gyfaill o'r
Rhyfel Byd Cyntaf 1914-18?
Oes gennych chi luniau
ohonynt yn eu lifrai?

Mae Cwmni Da wrthi'n
paratoi rhaglen i'w dangos ar
S4C am fywyd yn ystod y Rhyfel
Mawr, a hynny yng ngeiriau'r
Cymry fuodd fyw drwyddo, neu
farw ynddo. Bydd profiad y
milwyr yn cael lle blaenllaw,
ond rydym hefyd am
adlewyrchu hanes y rhai
arhosodd adre, y gwragedd,
cariadon, cyfeillion, gweithwyr
munitions. Ein gobaith yw casglu
hanesion 'newydd' o archifau
teuluol i'w plethu gyda'r straeon
sydd eisoes wedi eu cyhoeddi.

Nid oes angen eu hanfon
atom. Gallwch gysylltu â ni ac fe
wnawn ni drefniadau i alw i'w
gweld nhw.

Cysylltwch os gwelwch yn
dda â Wyn Thomas neu Ifor ap
Glyn yn Cwmni Da, Cae Llenor,
Lôn Parc, Caernarfon,
Gwynedd LL55 2HH. Gallwch
hefyd ffonio Wyn ar (01792)
898221 neu anfon e-bost at
tawefilms@ntlworld.com

Cefnogwch
ein Hysbysebwyrr

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Peidiwch a gori ar stori anfonwch hi i'r Eco

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDau CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

RHODDION

£20: Richard Wyn a Gwyneth
Evans, Ty'n Buarth,
Brynrefail; Mr Gwynn Davies,
Bryn Eithin, Waunfawr; Mrs
A. Jones, Eilionwy, Llanrug.

£10.50: Gwilym Ellis,
Llandrindod; Mrs Olwen
Ebrell, Coventry.
£10: Betty Lloyd Roberts, 6
Bro Deiniol, Deiniolen; Er cof
am Selina Morris; Margaret a
Hugh, 2 Bryn Teg, Llanberis;
Steven, Bwthyn Te, Pen
Ceunant Isaf, Llanberis;
Jennie Hughes, Bryn Parc,
Brynrefail; Eurwyn a Pearl
Williams, Parc, Waunfawr;
Miss Nellie Wyn Jones,
Dinorwig; Meurig Owen,
Lewisham; Mrs Mair Parry,
Llanllyfni.

£7: Mr Iolo Llywelyn,
Llanrug.

£6: Miss Helen Munro,
Llanrug.

£5.50: Mrs Ann Wiliam, Rhyl

£5: Dilys (Mai), Llanrug;
Lynne Jones, 10 Glan Moelyn,
Llanrug.

£2: Teulu Iwan Wyn Williams,
Carlinig, Ffordd Tŷ Du,
Llanberis.

£1: Di-enw Llanrug; Di-enw
Llanrug; Di-enw Llanrug; Di-
enw Llanrug.

Ymweliad Athrawon a Disgyblion Morbegno â Llanberis

Bydd cynrychiolaeth o efeilldref
Llanberis yn ymweld â'n hardal
rhwng 2il a 7ed o fis Fehfin.
Bydd athrawon a disgyblion oed
uwchradd o Morbegno, Yr
Eidal, yn ymweld ag Ysgol
Brynrefail ac ysgol Dolbadarn,
Llanberis, er mwyn dod i
adnabod y plant a'r ardal yn well
a gobeithio sefydlu perthynas ar
gyfer y dyfodol.

Bydd cyfle i'r grŵp o'r Eidal
hefyd ymweld â'r atyniadau
lleol, gan gynnwys taith i fyny'r
Wyddfa drwy garedigrwydd
rheolwyr y rheilffordd, a hefyd
ddiwrnod cyfan yn Eisteddfod
yr Urdd yn Rhuthun er mwyn
iddynt gael blas ar y diwylliant
Cymreig.

Wythnos yn ddiweddarach fe
fydd y grŵp Yr Heights, yn
ymweld â dinas Morbegno am
yr ail flwyddyn yn olynol – i
berfformio mewn amffitheatr
yng nghanol y dref. Bu'r
cyngerdd yn llwyddiant mawr y
llynedd ac mac ganddyn nhw
dipyn o ffans yno'n aros yn
eiddgar am gyngerdd arall!
Mwy o fanlyon am y gig yn
rhifyn nesaf *Eco* a phob lwc i'r
band gyda'u scenl newydd –
Jamaica Beer Eyes – fydd yn
cael ei rhyddhau ar 19 Mehefin.

Agor Cwrs Cyfeiriannu Parhaol yn Llanberis

Fe agorwyd Cwrs Cyfeiriannu Parhaol ym Mharc Padarn ar ddydd Mawrth, Mai 16, gan Dafydd Wigley. Daeth nifer o aelodau Clwb Cyfeirianwyr Eryri ynghyd, yn ogystal â phlant Ysgolion Rhostryfan, Rhosgadfan a Phorthaethwy. Er nad oedd plant ysgol Llanberis yn gallu bod yn bresennol, roedd Mr Rolant Wyn yno. Mae plant yr ysgol wedi cael cwrs hyfforddiant cyfeiriannu yn y parc yn ddiweddar.

Roedd hi'n braf iawn gweld John Disley yn ymuno yn yr agoriad swyddogol hefyd. Mae John Disley yn aelod anrhydeddus o glwb Eryri, a'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gamp o gyfeiriannu i Brydain dros 50 mlynedd yn ôl. Fe drefnodd y gystadleuaeth gyntaf ym Mhlas Y Brenin yn ôl yn 1955.

Mae Clwb Cyfeiriannu Eryri wedi llwyddo i gael arian Cist Gymunedol Gwynedd tuag at ddiweddarau'r map, gosod y marcys coch a gwyn o gwmpas y parc ac i gynhyrchu taflen ddeniadol sydd ar werth i'r cyhoedd. Bu Mair Tomos, y Swyddog Datblygu, yn gweithio yn agos efo Ken Latham a Paul Sivy, wardeiniaid y Parc, i sefydlu'r cwrs yma.


Mae nifer mawr o ysgolion Arfon yn dysgu sgiliau cyfeiriannu ar hyn o bryd, y gobaith yw y bydd y cwrs parhaol yma yn denu mwy i gymryd diddordeb yn y gamp. Mae 'na becyn o weithgareddau ar gael i ysgolion ei ddefnyddio efo'r Cwrs Parhaol.

Hoffwn annog teuluoedd lleol i roi cynnig ar y cwrs parhaol. Mae hwn wedi cael ei ddarparu ar eich cyfer chi. Mae'r taflenni ar werth am £1 yn siop Joe Brown, siop Fframia yn y Parc ac o safle gwybodaeth Parc Padarn.

Mae'r cyfarwyddiadau yn y daflen, ond yn fras iawn – ewch am dro o gwmpas y parc yn dilyn y cwrs sydd wedi'i nodi ar y map. Rydych yn dod o hyd i'r marcys coch a gwyn ar bostiau, meinciau, waliau neu gerrig mawr ac yn nodi'r llythrennau a welwch yno. Cewch wirio eich atebion wedyn yn y ciosg gwybodaeth. Mae llawer o gyrsiau gwahanol i'w cael ar un daflen.

Unwaith y byddwch wedi cael blas ar hyn gallwch fynd i Glynllifon, Nant Gwrtheyrn, Llyn Elsi neu Goedwig Beddgelert i roi cynnig ar y cyrsiau parhaol yno.

Camp antur gystadleuol yw



John Disley yn cyflwyno'r pecyn gweithgareddau i Mark Jones, Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored Gwynedd.

cyfeiriannu ac mae Clwb Eryri yn glwb llwyddiannus iawn. Mae nifer o bobl ifanc y clwb ymysg y goreuon ym Mhrydain. Trefnir cystadleuaeth yn y Parc

ar nos Iau, 8 Mehefin, croeso i chi ddod draw. Bydd y rhan fwyaf o'r cyrsiau yn rhai hawdd iawn ar gyfer rhai sy'n cychwyn arni.

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: williamsgw@parliament.uk

Silver STAR **GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein telthiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

O SIAMBAR SELWYN

Wrth ymadael â Pharc y Faenol ar derfyn wythnos Eisteddfod lwyddiannus Eryri a'r Cyffiniau, wnes i erioed ddychmygu y byddwn i'n derbyn cymaint o wahoddiadau yn ystod y flwyddyn. Wrth gwrs, roeddwn i'n ddiolchgar am gael gwahoddiad caredig i gymaint o Eisteddfodau, Cymdeithasau Llenyddol a Sefydliadau, fel Merched y Wawr ac ati, ac yn edrych ymlaen at nosweithiau difyr.

Un gwahoddiad yr oeddwn yn edrych ymlaen yn fawr ato oedd y gwahoddiad a estynnwyd i Orsedd y Beirdd ymuno â Gorsedd Môn a Gorsedd Powys ar achlysur cyhoeddi Canfed Eisteddfod Môn, a gynhelir ym Modffordd ymhen y flwyddyn. Roedd hwn yn achlysur hanesyddol, gan mai dyma'r tro cyntaf erioed i'r tair Gorsedd gyd-gyfarfod.

Fel yr awgrymodd Huw Goronwy, Derwydd Gweinyddol Môn: 'Diau y bydd y seremoni nid yn unig yn fodd o gyhoeddi Gŵyl y Dathlu 2007, ond yn gyfrwng i ymhyfrydu yn ein hundod fel cenedl. Cawn hefyd werthfawrogi cyfraniad bywyd diwylliannol Môn tuag at barhad y genedl a'i phennaf trysor, yr iaith Gymraeg.'

Mae Môn yn enwog am ei heisteddfodau a'i heisteddfodwyr. Mewn eisteddfod yn Llannerch-y-medd y cychwynnodd yr Archdderwydd cyntaf, Clwydfardd, ar ei yrfa eisteddfodol fel beirniad. Ei olynydd fel Archdderwydd oedd Hwfa Môn, un a fagwyd yn Rhostrehwfa, saer coed wrth ei alwedigaeth a godwyd i bregethu gan eglwys Smyrna, Llangefni. Bu'n Archdderwydd Cymru o 1895-1905.

Archdderwyddon eraill sydd â chysylltiad ganddynt â Môn ydi: William Morris, a fu'n weinidog ym Mryn Du am gyfnod; bu Emrys Deudraeth yn athro ysgol ar yr ynys ac, wrth gwrs, bu Penmaen, Porthaethwy, yn gartref i Cynan am flynyddoedd.

Mae Môn hefyd yn enwog am ei phrifeirdd. Cofiw'n am fuddugoliaeth ddwbwl Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau yn 1949: John Eilian yn gwisgo'r goron, a'r hen gyfaill annwyl, Rolant o Fôn, yn eistedd fel brenin yn y Gadair. Dwi'n cofio gofyn i Rolant, 'Pryd oeddech chi'n gwybod eich bod wedi ennill y gadair?' Ateb Rolant oedd, 'Pan rois hi i lawr y letter box.' Oedd, roedd ganddo fo ddigon o ffydd wrth ei phostio hi y byddai awdl 'Y Graig' yn ennill y Gadair Genedlaethol iddo.

Rhaid cofio am hatric eisteddfodol yr amaethwr o'r Berffro, y Prifardd Tom Parry-Jones, sef Tom Tŷ Pigyn. Fe enillodd Tom y Gadair, y Fedal Rhyddiaith a'r Goron ar ddau

achlysur - yr unig un i gyflawni'r gamp. Fe wnaeth Gwilym R. Jones gyflawni'r hatric, ond dim ond un goron a wisgodd Gwilym R.

Yn fwy diweddar fe ddaeth yna dair Coron Genedlaethol arall i feirdd o'r Ynys: Siôn Aled - Machynlleth 1981; Einir Jones - Bro Delyn 1991 a Cen Williams - Bala 1997. Cofiw'n hefyd am fuddugoliaeth Sonia Edwards, pan enillodd y Fedal Ryddiaith ar dir Môn, yn Llanbedr-goch ym mhrifwyl ola'r ganrif ddiwethaf.

Ar un cyfnod deallaf fod yna tua 30 o eisteddfodau lleol ar Ynys Môn. Heddiw tua hanner dwsin sydd yna, ac maent i gyd yn aelodau o Gymdeithas Eisteddfodau Lleol Cymru. Maent i gyd hefyd, ag eithrio Llanddeusant, yn un clwstwr gyda'i gilydd mewn un rhan o'r ynys: Llandegfan, Bodffordd, Talwrn a Marianglas (yr hynaf). Pentrefi Môn, sylwch, ac mae hyn yn wir am Gymru yn gyffredinol. Pentrefi gwledig Cymru sy'n cadw'r traddodiad eisteddfodol yn fyw. Ychydig iawn o drefi Cymru sy'n cynnal eisteddfod bellach.

Diolch bod y traddodiad yn parhau yn ein pentrefi, a bod y mwyafrif o'r eisteddfodau hyn yn aelodau o Gymdeithas Eisteddfodau Lleol Cymru. Mae hyn yn fanteisiol iddynt o safbwynt cael gwybodaeth am grantiau ac, yn sicr, o ran cyhoeddusrwydd. Diolch i Emyr Williams, yn ei golofn wythnosol yn y *Daily Post*, am roddi cyhoeddusrwydd cystal i'r Eisteddfodau lleol.

Do, fe gafwyd penwythnos arbennig o lwyddiannus ar achlysur cyhoeddi canfed Eisteddfod Môn. Ac i gloi y gweithgarwch fe gafwyd cyngerdd o'r radd uchaf ar y nos Sul, pryd y cyflwynwyd y perfformiad cyntaf o waith comisiwn Gareth Glyn, 'Dirion Dir', o dan arweiniad medrus y Dr Alwyn Humphreys, un o hogiau Bodffordd. Noson i'w chofio.

Ys gwn i pryd y byddwn ni fel tair Gorsedd yn cyd-gyfarfod nesa?

Tua chanol Mehefin bydd cynrychiolaeth o'r Orsedd yn mynd i Bontypridd i ddathlu pen-blwydd cyfansoddi yr Anthem Genedlaethol. Yna ar y diwrnod cyntaf o Orffennaf

(yn wyneb haul a llygad goleuni gobeithio), byddwn yn ymgynnull yn Yr Wyddgrug ar achlysur cyhoeddi Prifwyl Fflint a'r Cyffiniau 2007.

Ac ar ddiwedd y Cyhoeddi

gallaf innau ddweud: Wel, dyna un flwyddyn o'r tair wedi mynd. A hynny'n rhyfeddol o gyflym hefyd. Ond blwyddyn brysur.

Cyngor Cymuned Waunfawr

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Waunfawr ar 20 Ebrill 2006, gyda'r Cyngorydd Bryn Jones yn y gadair.

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd bod y gwaith o osod byrddau gwybodaeth amserau bysiau, yn ogystal â gosod strybedi coch tawelu traffig, wedi eu trefnu ar gyfer mis Ebrill.

Trafodwyd pryderon y Cyngorwyr ynghylch y parcio ar ochr y ffordd sy'n digwydd o Pen y Clip i Manchester House. Derbyniwyd nifer o gwynion ynglŷn â'r sefyllfa hon a phenderfynwyd trafod y mater ymhellach gyda Chyngor Gwynedd, yn y gobaith o ailosod y llinellau melyn.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gofal a Thrwsio Gwynedd yn rhoi gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau a gynigiwyd. Mae taflen Gofal a Thrwsio Gwynedd i'w chael yn y Syrjeri. Y rhif cyswllt yw (01286) 881576.

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus yn y pentref gyda Heddlu Gogledd Cymru, noder bod ganddynt rifau cyswllt newydd: 0845 6071001 a 0845 6071002, neu y rhif argyfwng arferol: 999.

Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r chwe chais cynllunio a drafodwyd.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf, sef Y CYFARFOD BLYNYDDOL, yw 8 Mehefin 2006 am 7 o'r gloch yng Nghanolfan y Capel, Caeathro.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc -
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvon.co.uk
Gwefan: www.arvon.co.uk

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG


Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



Y grŵp Dawnsio Gwerin Dan 12 sydd ar eu ffordd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

YSGOL CWM Y GLO.

Llongyfarchiadau i'r grŵp dawnsio gwerin Dan 12 a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dymunwn bob lwc iddynt yn y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhuthun yn ystod mis Mai.

Diolchwn i Mr John McBryde am ddod draw i sgwrsio gyda Blwyddyn 3 a 4 am ei ymweliad i Lesotho. Roedd yn amlwg, o'r holl gwestiynau, fod pawb wedi gwrando'n astud ac wedi mwynhau gweld y lluniau.

Bu plant Bl. 0, 1 a 2 ar ymweliad ag Amgueddfa Lloyd George fel rhan o'u gwaith thema ac roeddynt yn edrych yn ddigon o sioe yn y dillad o Oes Fictoria.

Bu plant Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad i'r Capel a'r Eglwys yma yng Nghwm y Glo, a diolchwn am y croeso a gawsant yn y ddau adeilad.

Aeth saith o fechgyn i gymryd

rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed saith-bob-ochr yr Urdd ym Mhorthmadog. Er na ddaethant i ben y gynghrair, fe chwaraeodd John, Cian, Jordan, Aidan, Conor, Dylan a Dafydd yn dda iawn.

Cynhaliwyd diwrnod heb wisg ysgol er mwyn casglu arian i Gymdeithas Clefyd Parkinson. Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu'r diwrnod.

Aeth pymtheg o'r disgyblion i gymryd rhan yn rasys traws gwlad yr Urdd yn y Faenol. Roedd tua saith deg o blant yn rhedeg ym mhob ras ac rydym yn falch iawn o Rebacca Parry o Frynrefail ddaeth i mewn yn bumed yn ras genethod Blwyddyn 5.

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a'r rhieni gweithgar a aeth draw i Morrisons i bacio neges ar Ddydd Sadwrn prysur ddechrau mis Mai. Diolchwn hefyd i Morrisons, Caernarfon am eu croeso.



Y bechgyn a gymrodd ran yng nghystadleuaeth pêl-droed saith-bob-ochr, yr Urdd.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau, bnawn Sul, 25 Mehefin am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Bydd modd parcio ceir ar fuarth yr Ysgol Gymuned.

Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am 1.15 a galw yn Neiniolen ar y ffordd, tua 1.20. Pris: 50c i oedolion. Croeso cynnes i bawb.

YR YSGOL GYMUNED

Carys Ofalus, 3 Mawrth. Daeth Carys Ofalus i'r ysgol i gynnal gwasanaeth i ddisgyblion Adran y Babanod ynglŷn â Diogelwch y Ffordd.

Sioe Hud, 7 Mawrth. Sioe 'Paid Cyffwrdd, Dweud' i godi ymwybyddiaeth y disgyblion ynglŷn â chyffuriau.

Blas ar Frynrefail, 13 Mawrth. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i ymweld ag Ysgol Brynrefail. Roeddynt wedi mwynhau'r gwersi a'r profiad yn fawr.

Capel Bosra, 16 Mawrth. Bu disgyblion Adran y Babanod yn ymweld â Chapel Bosra er mwyn atgyfnerthu eu gwersi Addysg Grefyddol yn ymwneud â mannau addoli. Daeth Mr E. Jones i siarad efo'r plant.

Amgueddfa Llanberis, 21 Mawrth. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â thai Fron Haul er mwyn gweld y gwahaniaeth a'r newid a fu rhwng cartrefi dros gyfnod amser - achos ac effaith.

'WAA', 22 Mawrth. Bu blynnyddoedd 4, 5 a 6 yn cystadlu ar raglen deledu WAA. Darlledwyd y rhaglen ar S4C yn ystod gwyliau'r Pasg.

Galeri, Caernarfon, 23 Mawrth. Aeth yr ysgol gyfan i Galeri Caernarfon i werthfawrogi a chael cymryd rhan mewn Cyngerdd Gwerin.

Gwersi Tennis. Yn dilyn dau dymor

o Nofio bydd disgyblion CA2 yn dechrau gwersi tennis am y tymor olaf yng Nghanolfan Tennis Caernarfon.

Clwb Bysedd Bach Gwyrdd. Mae'r disgyblion yn parhau i gael awr o sesiwn yn wythnosol yng nghwmni Rachel Thorpe. Yn ddiweddar cawsant gyfle i blannu amrywiaeth o goed o amgylch ffin yr ysgol, er mwyn creu cynefin i ddenu bywyd gwylt. Yn ogystal bu disgyblion yn brysur yn creu 'ffens' wedi ei blethu o goed helyg er mwyn dangos wal derfyn i'r ardd bywyd gwylt. Fel ysgol rydym yn ddiolchgar iawn i Rachel am ei gwaith caled, nid yn unig efo'r plant ond hefyd am ei brwdfrydedd i godi arian a chael grantiau ar gyfer cynnal y prosiect. *RSPCA.* Mae Claire Donnelly o Flwyddyn 5 wedi ysgrifennu erthygl sydd wedi ei chyhoeddi mewn pamffled gan yr RSPCA. Roedd yn bosib ei brynu yn yr ysgol am 50c gyda'r elw yn mynd i'r achos yma. Gwerthwyd llawer ohonynt.

Adran yr Urdd. Cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i ganu yn unigol, fel deuawdau, parti unsain a pharti llefaru. Cynhaliwyd nifer o wahanol weithgareddau a chymerodd y disgyblion ran yng nghystadleuaeth Gwaith Cartref yr Eisteddfod. Daeth Catrin Heledd, Bl.6, yn gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth.

Heddlu. Cawsom gwmni PC Neil Williams (Swyddog Cyswllt Ysgolion) ar ddydd Gwener, 27 Ionawr a 5 Mai eleni. Bu'n ymweld â phob dosbarth yn ei dro, yn cynnig gweithgareddau diddorol a bywiog er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o safbwynt 'Cyffuriau'. Bydd PC Williams yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i gynnal gweithdai gyda'r disgyblion. Bydd yn ail-ymweld y flwyddyn nesaf.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CHWILOTA

PERTHYN I DEULU ENWOG?



I'r rhai ohonoch sy'n derbyn rhaglenni lloeren Sky, bu'r drydedd wythnos ym Mai o ddiddordeb i haneswyr teuluoedd ar y sianel History UK. Yn ystod pob gyda'r nos am yr wythnos darlledwyd (neu'n hytrach ail-ddarlledwyd, fel sy'n gyffredin i'r math hyn o sianeli) cyfres o raglenni yn sôn am olrhain achau. Roedd dwy o ddiddordeb arbennig: *Who do you think you are?* a *My Famous Family*. Yn y gyntaf, roedd actor neu ddarlledwr adnabyddus yn olrhain ei achau, ond yn yr ail, dewiswyd pobl gyffredin ac olrhain eu hachau yn ôl i un o'u cyndeidiau neu gyn-neiniau enwog, megis Florence Nightingale a'r Dug Wellington. A doedd gan destun y rhaglen ddim syniad tan ddiwedd y rhaglen i bwy enwog roedd o neu hi yn berthyn.

Roedd y rhaglen ar y Dug Wellington yn cysylltu â theulu Cymreig, sef teulu Mostyn o Sir y Fflint, a chysylltiadau â theulu Trevor, Llangollen, a oedd hefyd, gyda llaw, wedi priodi i mewn i deulu Coed Alun, Caernarfon, ac felly â chysylltiadau â theulu'r Glasgoed, Llanddeiniolen. Gallai'r Mostyniaid olrhain eu hachau – yn ôl y rhaglen – i oesau niwlog y '*mythical Celts*'. Mae'n amlwg nad oedd ymchwilwyr y rhaglen â fawr o grebwyll am draddodiad cyfoethog y Cymry o olrhain a chofnodi eu hachau.

Ond beth sydd â wnelo hyn oll â bro'r 'Eco'? Wel, byddai'n ddiddorol gwybod faint o drigolion bro'r 'Eco' sy'n perthyn i deuluoedd enwog.

Soniais o'r blaen fel y bu i ddeiliaid tir yn yr hen drefi rhydd ddatblygu i ddod yn fân sgweieriaid a thirfeddianwyr pwysig rai cenedlaethau yn ddiweddarach. Deilliodd hyn yn bennaf o'r newid gwleidyddol a ddigwyddodd pan ddechreuwyd defnyddio'r plwyf fel uned weinyddol a diddymu caethion rhyw bum can mlynedd yn ôl.

Rhywbryd tua diwedd y bymthegfed ganrif roedd Hywel ap Ieuan ap Dafydd yn ddeilydd rhydd yn nhrefdir Y Rug. Roedd iddo o leiaf bedwar o blant: Rhys ap Hywel, William ap Hywel, Ieuan ap Hywel (a fu farw yn 1508) a merch o'r enw Alswn ach Hywel. Daeth disgynyddion Rhys, William ac Alswn i reoli miloedd o aceri o dir yn siroedd Caernarfon a Môn, a datblygu'n dirfeddianwyr cyfoethog. Roedd priodi o fewn y teulu yr un mor gyffredin â phriodi aelodau o deuluoedd eraill.

Roedd disgynyddion Rhys yn berchnogion tir yn Y Rug, tir a ddaeth i gael ei adnabod fel fferm Drws Ddeugoed. Ond collwyd hawl ar y fferm gan William Morris ddwy ganrif yn ddiweddarach, ac fe'i hawliwyd gan Dr John Morris (dim perthynas) a sefydlodd elusen sy'n parhau hyd heddiw.

Roedd gan William ap Hywel

dri o wyrion: Richard ap Gruffydd ap William, Rowland ap Gruffydd ap William, a William ap Gruffydd ap William. Daeth Rowland yn ddeiliad tiroedd Glanrafon bach ger hen dref Castellmai, a phriododd ag Annes o'r Plas Newydd, Llandwrog. Roedd eu merch, Margaret, yn briod â Morris ap William (gor-or-wyr i Rhys ap Hywel!) Priododd brawd Margaret, sef William arall, â Jane Owen, ac y mae disgynyddion y ddau blentyn wedi eu gwasgaru i wahanol rannau o siroedd Caernarfon a Môn, gan gynnwys ffermydd sylweddol Plas yng Ngheidio, Plas Nantlle, Glasgoed (Llanddeiniolen), Rhuddgaer (Llanidan) a Phlas Llanfaglan. Diddorol nodi fod Elinor Humphreys (gor-wyres William ap Rowland) wedi priodi William Llwyd o'r Faenol, Roedd eu mab hwythau, Humphrey Llwyd, yn denant fferm y Prysgol, ac yn dad yng nghyfraith i'r cerddor, William Owen. Tybed a wyddai Humphrey Llwyd pan symudodd i'r Prysgol ei fod yn dychwelyd i diroedd ei deidiau naw cenhedlaeth yn gynharach?

Roedd William ap Gruffydd yn berchen tiroedd ym Metws Garmon, ac o'i briodas, daeth ei ddisgynyddion i feddiant ffermydd Ystrad a Chaeau gwynion. Priododd gor-wyr iddo â gor-or-or-wyres i Alswn ach Hywel. Priododd eu mab hwythau, Rowland, â pherthynas, y gŵr a'r wraig yn perthyn i chweched cenhedlaeth o linach Alswn ach Hywel. Eu disgynyddion hwy fu'n gyfrifol am sefydlu stadau Plas y Nant (Betws Garmon), Plastirion, (Llanrug), Bodaden (Llanwnda), Crug (Llanfairisgaer) a Brynhir (Cricieth). A thrwy briodas, daeth stadau Plas Llanfair (Llanfairisgaer) a Brynodol (Llyn) yn rhan o'r teulu.

Roedd Emma, gor-wyres arall, yn briod â Arglwydd Bulkeley o'r Baron Hill, Biwmares, sef y ddegfed genhedlaeth o Hywel ap Ieuan ap Dafydd o dref Y Rug.

Ychydig mae'n siŵr a feddyliodd Hywel wrth drin ei leiniau tir rhwng Saint a Gwyrfa, 'nôl yn y bymthegfed ganrif, y byddai'n planta ar y fath gynhysgaeth o deuluoedd goludog a fu'n chwarae rhan mor amlwg ym mywyd cymdeithasol ac economaidd y rhan hon o ogledd-orllewin Cymru.

Adeiladwaith yn diflannu

Soniais mewn rhifynnau cynharach fel y mae'r hen 'porch' llechen yn diflannu oddi


ar ffrynt tai'r ardal. Faint tybed sy'n weddill erbyn heddiw?

Yn ddiweddar, deallais fod un o'r ychydig sydd ar ôl yn Llanrug i'w ddymchwil. Mae'r llun yn dangos y 'porch' o flaen Gwynfryn tra roedd y tŷ yn cael ei adnewyddu. Y newyddion da yw fod y datblygwr bellach wedi newid ei feddwl, ac wedi penderfynu cadw'r 'porch' fel nodwedd anghyffredin o'r tŷ.

Oes yna rai eraill yn dal mewn bodolaeth ym mhentrefi'r ardal, ac a ydynt i gyd o'r un patrwm? Anfonwch wybodaeth, neu gorau oll, anfonwch lun.



Soniais hefyd am fathau eraill o adeiladwaith sy'n hynafol iawn, sef y corlannau yn uchel ar lethrau'r brynau a'r mynyddoedd sy'n cysgodi'r fro. Mae'r llun yn dangos cyfres o gorlannau islaw Bwlch Cwm Cesig, rhwng Llyn Dwythwch a llethrau uchaf Moel Eilio. Tybed pryd yr adeiladwyd hwy, a phryd y defnyddiwyd hwy ddiwethaf?



- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Timau Pêl-droed Ieuencid

Yn dilyn yr ymateb fis diwethaf, daeth galwad gan Emrys Owen, Stryd Bethesda, Llanberis, er stalwm. Roedd yntau hefyd yn cofio'r gynghrair ieuencid, ac yn chwarae i dîm Llanberis, '...ond ddim yn cael cweir bob tro gan hogia'r fyddin! Mae'n cofio fel y byddai tîm y 'commandos' - dyna'r enw lleol ar y milwyr oedd yn ymarfer yng Nghwm Brwynog a'r cyffiniau - yn dod i'r pentref i chwarae. Un o'r chwaraewyr oedd Tasker Watkins, a oedd yn uwch-gapten yn Llanberis, ac a enillodd Groes Fictoria yn ddiweddarach yn y rhyfel. Mae ei enw heddiw yn fwy adnabyddus i'r rhai o'r darllenwyr sy'n dilyn y bêl hirgron. Yn wir, dyna oedd ei brif gêm erioed, ond doedd yna ddim cyfle iddo chwarae rygbi yn Llanberis yn ystod yr Ail Ryfel Byd, felly byddai'n troi allan i dîm pêl-droed y 'commandos' yn gwisgo dillad rygbi (gyda phocedi yn y trowsus).

Doedd tîm yr RAF ddim crystal â'r 'commandos', er fod chwaraewr o'r enw Fisher yn eu rhengoedd a fu ar lyfrau Fulham yn chwaraewr proffesiynol.

Mae Emrys Owen yn cofio torri ei ysgwydd mewn un gêm yn erbyn y milwyr, a'r Medical Officer yn dod i ymweld ag ef i'r tŷ. Roedd yn dipyn o arwr am gyfnod, gan fod y milwyr i gyd yn holi amdano!

Newid gartref oedd y drefn yn Llanberis, a chleician cerdded i lawr y strydoedd am Gae'r Ddôl. Ond roedd gan Llanaelhaearn gwt pren i newid ynddo: moethusrwydd anarferol yn y cyfnod hwnnw.

Cofia Emrys Owen hefyd am dîm Halford Hill, yn cael ei reoli gan Stanley, ac yn cynnwys hogia Well Street a

Water Street yn bennaf.

Diolch unwaith eto am yr ymateb - ond beth am chwaraewyr y timau lleol eraill?

Chwilio am Frodyr Ceridwen Peris

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, symudodd David ac Ellen Jones o blwyf Llanllyfni i Lanberis. Nhw oedd rhieni Ceridwen Peris (Alice Grey Jones), un o hyrwyddwyr cynnar hawliau merched ac un o sylfaenwyr Undeb Dirwest Merched Gogledd Cymru. Yr oedd yn awdur nifer o werslyfrau, traethodau a phamffledi, gan gynnwys cyfrol o farddoniaeth *Caniadau*. Bu hefyd yn olygydd *Y Gymraes* rhwng 1896 a 1919. Ond mae un o'r darllenwyr angen mwy o wybodaeth am ddau o'i brodyr, yn enwedig ble cawsant eu claddu.

Roedd un brawd, Owen David Jones, a fu farw yn 1907, yn brif oruchwyliwr Chwael Dinorwig. Yn ôl cyfrifiad 1901 roedd yn byw yn Llwyn Celyn, Llanberis gyda'i wraig, Martha, a phedwar plentyn: Blodwen (11 oed), Rowena (8 oed), Ceinwen (3 oed) a Maelgwn (blwydd a hanner). Oes rhai o'u disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal?


Y brawd arall oedd John David Jones, a oedd yn oruchwyliwr yn Chwael Glynrhonwy. Roedd yn parhau'n fyw yn 1903, ond bu farw ei wraig, Charlotte, yn 1907. Credir fod ganddynt fab o'r enw Willie. Yn 1901 roeddent yn byw yn Beech Bank, Llanberis.

Prin fu'r ymateb y mis hwn, ond mae'n tueddu i fod felly yn ystod misoedd yr haf. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

BENTHYCA, NEU LADRATA?



Ryw hannar Fehefin... ac aderyn arall yn bancio am y tymor, cyn mynd ati i dynnu'r cyfan oll o'r gronfa, a dychwelyd adra o'i wylia'. Ia'r *gog* ynte ac aderyn diddorol odia'th, y lled-obeithiaf yn ystod y flwyddyn nesa', os byw ac iach, ga'l cyfla i sôn rhywfaint amdani, ond nid y tro hwn, oherwydd fy mhennaf ddiben ydy' ymdrin hefo rhai o'n hadar ac anifeiliaid, sy' ar brydia', yn benthycu a lladrata oddi ar er'ill!

Ceir clamp o deitl dramatig yn *Yr Herald Cymraeg* ar y 3ydd o fis Gorffennaf, y flwyddyn 1858. Dyma fo: *Lladrad ymhlith rhywogaeth asgellog. Iâr yn lladrata cywion iâr arall*. Perchennog yr ieir ydoedd Mrs. Owen, Tŷ Mawr. Mae 'na gym'int o Dai Mawr ran enwa' lleoedd yng Nghymru. Nis gwyddys i sicrwydd os mai ym mhlwyf Llanddeiniolan roedd y lle hwn. Ys gwn i beth sy' ar gael yng Nghyfrifiad Llanddeiniolan am y flwyddyn 1861 ac oedd 'na Oweniaid yn trigo yn Nhŷ Mawr? Y cyfan a wyddom ydy' bod yno iâr; un hynod bowld, hefo llais *crawchlyd* ac iddi ladrata cywion a berthynai i iâr arall, a'u magu! D'wedir ei bod yn *ymddangos mor hoff ohonynt ag un iâr a welwyd erioed*. Cymaint ydy'r awydd ynte i fod - yn fam!

Dro arall ym myd Natur digwydd rh'wbath rhyfeddach fyth, sef adar yn benthycu cywion er mwyn eu bwydo, a hynny er nad ydynt yn perthyn 'run gronyn iddynt. Yn y flwyddyn 2005 darllenas, gan led-wenu, hanas *dryw bach* yn mynd ati'n fwriadol am dros wsnos i fwydo cywion *titw tomos las*. Ai mynd ati o reidrwydd roedd y *dryw*, neu a oedd cywion y *titw*, a'u piga'n agorad led y pen yn gyfla rhy dda i'w fethu cyn belled ag roedd y *dryw*'n

bod? Efallai fod y *dryw* wedi colli ei gywion ac wedi mabwysiadu dros dro gywion aderyn arall. Dichon fod hyn i gyd yn dangos un peth, sef mai rh'wbath sy'n gynhenid mewn aderyn, waeth beth ydy' ei faint, ydy'r reddf i chwilio am fwyd er mwyn ei gludo at biga' agorad. Drwy swmian mi roedd y cywion yn begera'n fwriadol ac yn dangos drwy liwia' eu cega' pa mor fawr oedd eu chwant am fwyd. Ceisio ca'l llond eu bolia' roeddynt, gan alw'n uchaf ar bob aderyn a ddigwyddai hedfan heibio iddynt, ddyfod draw i'w gweld, hynny ydy' os oeddynt hefo tameidia' mwy blasus nag arfar yn eu gylfina'. Clyfrwch, neu os hoffwch chwi well gair, digywilyddeidra, ond bod iddo'i bwrpas!

Rai blynnyddoedd yn ôl gwelais *gast* mewn tafarn, a cathod bach yn ei sugno. Yn drist iawn bu i Shennah golli ei chŵn bach, ond nid aeth ei llefrith yn wastraff! 'Wyddoch chi i *gath* o eiddo Samiwl Griffiths, yr Oddfellows Arms, Llangefni, fagu'n llwyddiannus dair o gathod bach, a dau gyw *cwningen* wyllt? Yn ystod mis Chwefror y flwyddyn 1864 y digwyddodd hynny ac y mae'r dystiola'th ar gof a chadw'n *Yr Herald Cymraeg*. Yn yr un newyddiadur cawn hanas *oen* du amddifad ar fferm Talmignadd Isa', Nantlla, yn cym'ryd at *ast*. Yn y flwyddyn 1861, sonnir fod yr *ast* yn ymlid defaid o'r yd, a'r hen oen bach du wrth ei chwt! D'wedir hefyd bod y ddau ohonynt' nhw'n canlyn teulu Talmignadd Isa' i'r capal, gan aros, yn eitha' amyneddgar, tu allan i dŷ Duw i'r gwasana'th ddyfod i ben.

Lladrata? Benthycu? Dyna fo! Natur ydy natur. Aderyn ydy aderyn ac anifa'l ydy anifa'l a 'does, welwch chi 'run ohonynt yn hollol 'run fath â'i gilydd!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

MEHEFIN 1 ...
BYDDWCH YN
BAROD

golwg

Gareth
Jenkins

golwg

AR NEWYDD WEDD



yn eich
ardal
chi



Mae Golwg yn newid – rhagor o newyddion o bob rhan o Gymru, colofnwyr newydd, mwy o hiwmor a gweithgareddau, diwyg newydd ... a lliw llawn trwyddo.

Ac mae Golwg ar gael mewn siopau yn eich ardal chi.

Dyma lle gallwch chi gael
golwg ar y Golwg newydd:

- | | |
|---|-----------------------------------|
| • Palas Print, Caernarfon | • Richards, Caernarfon |
| • Spar Llanrug | • Roberts y Newyddion, Caernarfon |
| • Spar Llanberis | • I M Evans, Caernarfon |
| • Castle Gifts / Internet Café, Llanberis | • W H Smith, Caernarfon |
| • Snowdon Honey Farm, Llanberis | • Post Bach |
| • Premier Late Shop, Deiniolen | • Newsagents, Caernarfon |
| • Garej Beran, Deiniolen | • Min y Nant Stores, Caernarfon |
| • Swyddfa Bost Brynrefail | • Gwalia Garage, Caeathro |
| • Swyddfa Bost Bethel, Saron | • Siop Gwyled, Rhostryfan |
| • M a J Owen, Caernarfon | • Swyddfa Bost Groeslon |
| • Castle News, Caernarfon | • Safeway, Caernarfon |
| | • Tesco, Caernarfon |

Os nac oes siop yn gyfleus,
gallwch archebu trwy'r post
– 01570 423529
neu www.golwg.com

bob dydd
iau

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Cafwyd orig ddifyr yng nghwmni'r siaradwr gwadd, sef Oscar Evans, yng nghyfarfod diwethaf o'r Clwb. Yn dilyn y croeso arferol gan y Llywydd, Goronwy Jones, cawsom hanes ei fagwraeth ym Metws Garmon a sut y bu iddo ymuno â'r heddlu. Roedd yn newid mawr iddo wrth symud o Feirionnydd i Gaergybi a chafwyd amrywiaeth o hanesion o'i brofiadau – rhai digri a rhai difrifol. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am brynghawn cartrefol braf gan leuan Williams. Y trip pentymor fydd yn cloi gweithgareddau'r Clwb am eleni a'r dyddiad yw dydd Mercher, 7 Mehefin.

CYSEGR. Yn ddiweddar casglwyd, gan chwiorydd y Capel, y swm anrhydeddus o £232 tuag at Fwrdd y Genhadaeth, Sasiwn Genhadol y Chwiorydd. Dymuna'r Swyddogion ddiolch i bawb a fu'n casglu ac i bawb am gyfrannu eleni eto.

CYMDEITHAS LENYDDOL. I gloi'r gweithgareddau am eleni bu'r aelodau am swper pentymor i Bentre Berw lle cafwyd pryd o fwyd blasus yn Nhafarn y Gors.

Braf oedd cael gwledda a chymdeithasu yng nghwmni cyfeillion. Nora Parry a Sheila Roberts oedd wedi gwneud y trefniadau a diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan y Llywydd, Jenkin Griffiths. Enillwyr y raffl oedd Nora Parry (rhodd gan y Cynghorydd Huw Hughes), Anne Ellis Williams (Gwin) a Nan Owen (Siocledi).

DIOLCH. Dymuna Beryl a Dafydd Parry, Hafod Elen, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU i Rita a Collwyn, Elan, ar ddathlu eu Priodas Ruddem dydd Sul, 21 Mai. Fel hyn y cyfarchodd Richard Llwyd y ddau yn yr oedfa yn y Cysegr.

Heddiw, cofio y byddan' – yn dawel

Am deulu, yn gorlan.

Elwa dau yn hael o dân

Hen ddyled Dolwyddelan.

ADRAN YR URDD. Aeth yr aelodau i ymweld â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon nos Fercher, 3 Mai. Roedd y plant wedi mwynhau yn arw a hoffent ddiolch i'r dynion tân am eu croeso ac i Gareth Griffiths am drefnu'r noson. Aeth tua 10 o blant i redeg traws gwlad yn y Faenol ar nos Iau, 4 Mai. Llongyfarchiadau i chwi i gyd am orffen mewn amser da, roedd nifer fawr yn cystadlu, tua 100 mewn ambell ras. Bu'n rhaid gohirio y Noson Fabolgampau ar 17 Mai oherwydd y tywydd. Byddwn yn ceisio aildrefnu'r noson ar nos Fercher, 7 Mehefin, os bydd y tywydd yn sych.

Dymuniadau gorau i holl aelodau'r Adran fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddiwedd y mis. Bydd y Grŵp Llefary, Parti Canu, Grŵp

Dawnsio Disgo a Grŵp Pop dan 12 oed yn cynrychioli'r adran. Bydd yn rhaid i ambell un ddeffro'n gynnar iawn gan fod angen iddynt fod mewn rhagbrawf cyn 8 o'r gloch y bore. Pob lwc i chwi i gyd a diolch unwaith eto i'r holl hyfforddwyr. Mae cyngerdd wedi ei drefnu ar nos Fercher, 24 Mai, yn y Neuadd Goffa, fydd yn rhoi cyfle i ffrindiau a thrigolion y pentre glywed y plant yn perfformio.

UWCH ADRAN YR URDD. Pob lwc i Danielle Kavanagh, i'r Grŵp Dawnsio Gwerin ac i'r tri Grŵp Pop fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddiwedd mis Mai.

Hefyd mae rhai o'r aelodau yn cystadlu ydag Ysgol Brynrefail, pob llwyddiant i bawb ohonoch.

Aeth tîm pêl-droed bechgyn blwyddyn 7 ac 8, a thîm pêl-rwyd blwyddyn 9 a 10 i gystadlu yng Ngŵyl Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn y Bala ar ddydd Sadwrn, 20 Mai.

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd ar ddod yn Bencampwyr Cymru a dod â'r darian yn ôl i Fethel. Hefyd gwnaeth y bechgyn yn arbennig o dda a dod yn ail drwy Gymru mewn cystadleuaeth agos iawn. Dim ond un gôl o wahaniaeth yn gwahanu tîm Bethel â'r tîm buddugol.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 10 Mai, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr ysgol gynradd dan lwydyddiaeth Sian Davies. Llongyfarchwyd Lynnwen Morris ar ddod yn nain unwaith eto a dymunwyd gwellhad buan i Delyth Williams. Dymunwyd yn dda i'r trysorydd, Edwina Morris, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Etholwyd yr is-swyddogion canlynol ar gyfer 2006/7: Is-lywydd: Margaret Druce; Is-ysgrifennydd: Joyce Roberts; Is-drysorydd: Edith Jones. Y Pwyllgor yw Mary Evans, Gwyneth Jones, Sheila Roberts, Eirlys Sharpe, Glenys Griffiths a Bet Owen.

Croesawyd aelod o'r gangen, Eirlys Williams, i gymryd y noson. Dangosodd sut i wneud nifer o fwydydd iach a chyfleus at yr haf, megis *paté* moron, salad ffa coch a chorn melys a salad ffachys a thatw. Roedd y risetiau yn syml, y cynhwysion yn hawdd i'w cael a'r prydau yn lliwgar a diddorol. Paratodd nifer o bwdinau blasus hefyd megis pwddin afal Norwy a *brulee* bisged, ffrwythau a iogwrt. Cafodd yr aelodau borfi'r bwydydd ar y diwedd a'u mwynhau yn fawr. Diolchodd Margaret Druce i Eirlys Williams am yr arddangosfa.

Glenys Griffiths a Rhian Hughes oedd yn gofalu am y te ac enillydd y raffl oedd Deilwen Hughes.

Atgoffir yr aelodau i roi arian y gweithgaredd rhanbarth (taith a bwyd yn Llanberis, 23 Mehefin) i'r trysorydd erbyn 10 Mehefin.

Bydd y bws i Barc Glasfryn (14 Mehefin) yn cychwyn o Cysegr am 6.45 yr hwyr.

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)



ER COF ANNWYL AM ANTI JEAN. Dydd Sadwrn, 26 Mawrth, aeth naw o wragedd ifanc Deiniollen ar daith gerdded nodedig rownd Pen y Gogarth, Llandudno. Taith o 5.7 milltir i gofio am Jean Parc Jones a fu farw flwyddyn union yn ôl. Casglodd y genod £900 tuag at Gronfa Waddol Gynaecolegol, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Diolch yn fawr i'r genod am eu hymdrech ac i bawb a'u cefnogodd.

GWELLHAD. Da deall fod Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi House, yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Cymdeithas

y Beiblau, bawn Sul, 25 Mehefin am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Bydd modd parcio ceir ar fuarth yr Ysgol Gymuned.

Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am 1.15 a galw yn Neiniolen ar y ffordd, tua 1.20. Pris: 50c i oedolion. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Betty Lloyd Roberts, 6 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod ei llawdriniaeth ddiweddar. Diolch hefyd i feddygon a staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd, a'r meddygon a'r nyrsus lleol am eu gofal.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau, bawn Sul, 25 Mehefin am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Bydd modd parcio ceir ar fuarth yr Ysgol Gymuned.

Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am 1.15 a galw yn Neiniolen ar y ffordd, tua 1.20. Pris: 50c i oedolion. Croeso cynnes i bawb.

I'R YSBYTY. Anfonwn gofion at Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCHIAU. Dymuna Jennie Hughes a Nerys a theulu y diweddar Gwilym Hughes (Wil Garth), Bryn Parc, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli priod, tad a thaid annwyl iawn. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau ac am y rhoddion hael tuag at Gymdeithas Alzheimers. Diolch hefyd i'r Parch Marcus W. Robinson am ei wasanaeth teimladwy ac i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am ei wasanaeth trylwyr. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Richard Wyn a Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, ddiolch o galon am y caredigrwydd a'r ffyddlondeb a dderbyniwyd tra bu Richard yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn a'r dymuniadau da. YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y Gymdeithas. Cynhaliwyd ail

gyfarfod y Gymdeithas am y tymor yn y Ganolfan nos Iau, Mai 11. Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir, oedd Cadeirydd y noson. Ar ddechrau'r cyfarfod arweiniodd mewn defosiwn a'r testun oedd 'Ni buom yn Stiwardiau da'. Rhoddwyd croeso arbennig i Marika Fusser, sef gwraig wadd y noson, a'i thestun oedd 'Cynladwyaeth Gwynedd'. Wedi egluro egwyddorion ar gyfer hyrwyddo cynladwyaeth yng Ngwynedd cafwyd enghreifftiau o ymarfer da er mwyn creu gwell dyfodol i ni a'r cenedlaethau i ddod. Bu cryn drafod ar ein cyfrifoldeb ni fel unigolion a'r hyn y gallwn ei wneud er lles yr amgylchfyd.

Diolchwyd i'r siaradwr gan y Cadeirydd a pharatowyd lluniaueth gan Ellen George ac Eleanor Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 8 Mehefin, pryd y disgwylir Gwen Aaron i roi sgwrs ar y pwnc 'Gofal mewn Galar'. OEDFAON MEHEFIN.

- 4: Pentecost
5.30: Parchg Gwilym Parry, Llanfairfechan.
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
11: 10.00: Mr Evan Jones, Bontnewydd;
18: 2.00: Parchg Olwen Williams, Tudweiliog;
25: Sul Cymdeithas y Beiblau, Dosbarth Deiniolen.
PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Llongyfarchiadau i Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fai 15fed.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau, bawn Sul, 25 Mehefin am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Bydd modd parcio ceir ar fuarth yr Ysgol Gymuned.

Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am 1.15 a galw yn Neiniolen ar y ffordd, tua 1.20. Pris: 50c i oedolion. Croeso cynnes i bawb.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau'r clwb yng Nghanolfan Blue Peris ar 11 Mai pryd y croesawyd pawb yno gan y Llywydd, John Cantrell. Y siaradwr gwadd oedd Mr Ellyn Owen, Swyddog Gofal a Thwrsio Gwynedd Cyf. Bu'n sôn am y gwasanaeth 'Crefftwr' a gynigir i bobl hyn a phobl anabl Gwynedd i wella cyflwr eu cartrefi. Gall y crefftwr gyflawni ystod eang o fân waith trwsio.

Rhannwyd copiâu o gwestiynau ar felysion a rhigymau a fydd yn cael eu gwerthu i godi arian tuag at Ysgol Pendalar, Caernarfon. Rhoddwyd y te a gwobrau'r raffl gan Margaret Faulkener a Betty Roberts. Enillwyd y raffl oedd Rose Cantrell a Betty Bower. Y GYMANFA. Ar y Sul cyntaf o Fai, sef y 7fed, cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul cylch Padarn yng Nghapel Cefnywaun, yng nghyfarfodydd prawn a nos. Arweinydd y gân oedd Mrs Mererid Mair Williams, Penmaen-mawr. Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n llwyddiannus yn eu Maes Llafur a diolch i'w rhieni am fynd ati i'w dysgu. CYFARFOD PREGETHU SARDIS. Fe fydd Cyrrdau Pregethu'r Sulgwyn yn Sardis ar ddydd Sul, 4 Mehefin. Disgwylir i bregethu yno y Parchedig Ddr Densil Morgan, Coleg y Bedyddwyr, Bangor, am 2 o'r gloch a'r

Parchedig J. D. Hughes, Llangefni, am 5.30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb. COFIO DAVID JOHN THOMAS.

Ar 16 Ebrill daeth y newydd trist am farwolaeth David John Thomas, gynt o Dŷ Capel Sardis, ac yn ddiweddarach o Blas Pengwaith, Llanberis, yn 90 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Sardis a rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Llandinorwig. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog, Y Parch Olaf Davies, a oedd yn cael ei gynorthwyo gan Y Parch William John Lewis, Llanfairpwll. Talodd deyrnged haeddianol i'r gwasanaeth clodwiw a roddodd D.J. Thomas i Eglwys Sardis. Bu'n byw yn y Tŷ Capel am dros 30 mlynedd a mawr fu ei ofal ef a'i ddiweddar briod am yr adeiladau. Bu'n ysgrifennydd yr Eglwys am 32 o flynyddoedd ac ef hefyd oedd Arweinydd y Gân. Gwasanaethodd ar sawl pwyllgor yng Nghymanfa Arfon a bu'n ymgeisydd cyson yn Arholiadau Ysgrifenedig Undeb Bedyddwyr Cymru. Rhoddodd ei orau i bopeth a wnâi.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i wŷr, Andrew, Megan, ei ferch-yng-nghyfraith, Eluned, ei chwaer, a'r teulu i gyd yn eu hiraeth.

DIOLCH. Hoffwn ddiolch i bob un a fu mor garedig â chofio amdanaf wedi i mi dorri fy mraich yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn, am alw i'm gweld, am yr anrhegion, am wneud negeseuon drosod, am fy nghludo i'r lle yma a'r lle arall, am lanhau'r eira ac am bob cymwynas. Yn wir, bron na ddywedwn ei bod wedi bod yn werth torri 'mraich er mwyn cael y fath sylw! Diolch yn fawr i chi i gyd. Nellie Wyn. CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr iawn i bawb yn yr ardal a gyfrannodd mor hael at yr achos.

UN FUNUD FACH

'DA 'DI DAN'

Mae'n siŵr gen i fod Dan Brown yn nofelydd da. Mae gwerthiant annhygoel *The Da Vinci Code* yn awgrymu hynny'n sicr. Bu trafod mawr ar y nofel ers ei chyhoeddi yn 2003, a chaiff fwy o sylw fyth wrth i'r ffilm a seiliwyd arni gyrraedd y sinemâu.

Ceir ynddi stori ryfeddol am 'wirionedd' a gelwyd gan yr Eglwys Gristnogol ar hyd y canrifoedd, a chymuned grefyddol gudd sy'n barod i ladd er mwyn gofalu bod y 'dirgelwch' hwnnw'n aros yn guddiedig. Os darllenoch chi'r nofel a'i mwynhau, rydych o bosibl yn cytuno mai 'da 'di Dan'. Ond er gwaetha'i honiad ar y dudalen gyntaf fod 'pob disgrifiad o arlunwaith, pensaernïaeth, dogfennau a defodau cyfrinachol yn y nofel hon yn gywir', mae mwy o sail hanesyddol i jôcs 'Da 'di Dil' nag i rai o'r honiadau a wneir gan Brown yn y nofel hon.

Mae'n anodd gwybod beth i'w wneud o'r *Da Vinci Code* a'i honiadau am y Ffydd Gristnogol: mai dyn yn unig oedd Iesu; bod Iesu wedi priodi â Mair Magdalen ac mai eu hetifeddion nhw oedd brenhinoedd Ffrainc; a bod rhywbeth 'sinistr' ynglŷn â'r modd y dewiswyd pa lyfrau i'w cynnwys yn y Testament Newydd.

Gellid anwybyddu'r llyfr: wedi'r cwbl, nofel ydyw. Ond fyddai hynny o fawr help i bobl sy'n darllen y llyfr ac yn dechrau meddwl bod y 'gwirioneddau' sydd

ynddo mewn rhyw ffordd yn tansilio'r Ffydd Gristnogol. Mae'r ffaith fod Brown yn cyflwyno'r syniadau hyn fel ffeithiau trwy enau 'arbenigwyr' yn awgrymu na ddylem anwybyddu'r nofel.

Ond mae mor rhwydd rhoi gormod o sylw iddi hefyd, a gwneud Brown a'i stori'n bwysicach nag ydynt. Ac eto, mae'r *Da Vinci Code* wedi agor trafodaeth frwd ac wedi gwneud i lawer o bobl ddechrau meddwl beth yw'r gwir am Y Beibl, ac am Gristnogaeth, ac am Iesu Grist. Dyma gyfle da i ni rannu'n Ffydd ag eraill. Ac os oes angen help arnom i ateb rhai o'r cwestiynau sy'n codi o'r *Da Vinci Code* mae hwnnw i'w gael mewn llyfrau ac erthyglau Cristnogol ar y We sy'n trafod y nofel.

Mae'r nofel er enghraifft yn awgrymu bod y 'fffaith' fod Iesu wedi priodi â Mair Magdalen yn profi mai dyn yn unig oedd. Y gwir yw nad oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy dros y gred bod Iesu wedi priodi. Ond petai yna dystiolaeth o'r fath, pa wahaniaeth fyddai? Credodd yr Eglwys erioed bod Iesu yn wir Dduw ac yn wir ddyn. Fyddai'r ffaith iddo briodi ddim yn ei wneud yn fwy o ddyn nac yn llai o Dduw.

'Da 'di Dan', o bosibl. Ond llawer iawn gwell, 'Da 'di Duw, a'i Air.'

JOHN PRITCHARD

YSGOL BRYNREFAIL

Gŵyl Delynau Cymru

Yn ystod ail wythnos gwyliau'r Pasg cynhaliwyd Gŵyl Delynau Ryngwladol yn Galeri Caernarfon. Trwy garedigrwydd cwmni Parc Carafanau Brynteg sicrhawyd 40 o docynnau i'r cyngherddau i blant Ysgol Brynrefail.

Ar nos Sul, 16 Ebrill, agorwyd yr ŵyl gan y delynores, Isabella Morretti, o Ffrainc. Roedd y delynores fyd-enwog yma yn edrych yn hyfryd mewn ffrog goch drawiadol ac roedd ei pherfformiad yn agoriad teilwng i'r cyngerdd. Bwriodd i mewn i ddarnau bywiog a chyffrous ac roedd pob darn yn wahanol ac yn hudo'r glust. Cyflwynodd wybodaeth am bob darn cyn ei chwarae, oedd yn rhoi cefndir addas i ni. Mwynheais y cyngerdd yma'n arw ac ie wir, fel y dywed y rhaglen, Isabella Moretti yn wir yw Brenhines y Delyn!

Ar nos Fawrth, 18 Ebrill, euthum i'r ail gyngerdd yn yr ŵyl, sef cyngerdd Cerddoriaeth Telyn y Byd. Dyma gyfle i weld talentau'r delyn o bedwar ban byd. Telynors a chantores o ogledd Cymru oedd y gyntaf i ymddangos ar y llwyfan - Gwenan Gibbard. Chwaraeodd sawl darn gwerin traddodiadol yn ogystal â cherdd dant. Yr ail i ymddangos oedd Catriona McKay o'r Alban gyda'r delyn Clarsach. Dyma berfformiad llawn hwyl. Yn dilyn daeth y telynor, Paul Dooley, i'r llwyfan gyda'i delyn a'i thannau pres. Perfformiodd sawl hen gân Wyddeleg ond ychwanegodd ei gyfansoddiadau ei hun at y darnau i greu plethwaith o'r cyfoes a'r traddodiadol. Yna daeth Zi Lan Liao i'r llwyfan, geneth ifanc iawn o China. Dyma'r perfformiad gorau yn fy marn i. Roedd y cyfan yn anhygoel a'i sŵn yn wych. Andrew Lawrence King ddaeth i'r llwyfan wedyn gyda'i delyn Sbaenaidd a chanddi groes-

dannau, ac yn olaf daeth Robin Huw Bowen gyda'i delyn deires i'n diddanu.

Daeth y cyngerdd i ben gyda phob telynor yn chwarae mewn *ensemble* cofiadwy, o bedwar tant y byd!

Bu criw ohonom yn ddigon ffodus i gael tocyn ar gyfer cyngerdd Catrin Finch ar y nos Fercher, a chafwyd gwledd i'r glust a'r llygaid trwy berfformiadau hollol unigryw a chofiadwy'r delynores ifanc yma. Aeth y cyfan mor sydyn, gydag amrywiaeth anhygoel o arddulliau gwahanol a heriol yn plethu'r hen a'r newydd yn gelfydd.

Diolch yn fawr i gwmni Brynteg am eu haelioni ac i Elinor Bennett am drefnu cyfres o gyngherddau gwirioneddol gofiadwy.

IWAN WILLIAMS
A SARA WILLIAMS (Bl.10)

Ar y Brig!

Mae Tîm Pêl-droed Bechgyn Blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail wedi ennill Cwpan Cymru!! Do, wir!!

Ar noson gyffrous ar gae Eithin Duon llwyddodd un ar ddeg o arwyr ifanc i drechu cewri Bro Morgannwg. Ac oedd, mi oedden nhw'n gewri! Roedden nhw'n anferth! Ond doedd hynny'n llesteirio dim ar yr hogia ac aethant ati'n ddygn i redeg a driblo, i daclo a phasio, a dod i'r brig yn gwbl haeddiannol gyda'r sgôr terfynol yn 2 gôl i 1 i Frynrefs.

Llongyfarchiadau gwresog i'r hogia, i Mr Holland a Mr Davies am eu hyfforddi, a diolch o waelod calon i bawb am greu torf mor gefnogol i roi hwb i'r hogia.

Dyma adroddiad un o'r bechgyn fu'n chwarae yn y gêm anhygoel hon:

* * *

Codais fel pob bore arall ar gyfer diwrnod arferol yn yr

ysgol, ond doedd hwn ddim am fod yn ddiwrnod arferol nag oedd? Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn, a'r haul yn sgleinio dros bob man a'r awyr yn las, las. Dechrau da, medda fi. Doeddwn i ddim yn medru canolbwyntio ar y gwersi yn yr ysgol gan fy mod yn meddwl am bedwar o'r gloch trwy'r adeg. Pedwar o'r gloch roedd y gêm fawr yn dechrau, ac roeddwn i wedi cael fy newis i chwarae!

Aethom ar y bws i gae Llanrug ac roedd pawb yn canu ac yn llawn cyffro. Ond, pan naethon ni gyrraedd, aeth pawb yn ddistaw. Nerfau, mae'n siŵr. Aethom i mewn i'r ystafell newid a gwisgo cit yr ysgol. Wedyn cafodd Mr Holland air hefo ni, math o *team talk*, a dweud ei fod o eisiau i ni drio mor galed, doedd o ddim eisiau i ni stopio nes oedd pawb yn biws fel plymsan! Wedyn, cawsom dynnu ein lluniau efo'r HSBC, oedd yn noddî'r gystadleuaeth. Pan glywais i fand yr ysgol yn chwarae Hen Wlad fy Nhadau mi wnes i sylweddoli fod y ffeinal wedi cyrraedd go iawn.

'Biiiib,' canodd y chwiban ac i ffwrdd â ni! Roedd Brynrefs yn chwarae'n dda o'r cychwyn, ond fe sgorion nhw'n gôl gyntaf. Dwi'n meddwl fod hynny wedi gwneud i ni ddeffro fel tîm oherwydd fe lwyddon ni i ddod â'r sgôr yn gyfartal o fewn dim, diolch i groesiad da gan Daniel Bell a Gruffudd John yn tapio'r bêl i gefn y rhwyd. Ac felly y daeth yr hanner cyntaf i ben.

Mi ddechreuon ni'n well fyth yn yr ail hanner - Mr Holland unwaith eto, mae'n siŵr! - ac roedden ni'n rhoi pwysau ar Fro Morgannwg trwy'r amser. Dim ond dau funud oedd ar ôl pan lwyddodd Gruff i sgorio am yr ail dro. 'Hwrê!' meddai pawb o'r cefnogwyr dros y lle ac roedd Eithin Duon yn berwi!

Canodd y chwiban olaf ac roeddwn yn teimlo fel fy mod wedi ennill cwpan y byd! Cawsom ni'r gwpan a medal

bob un a mynd yn ôl i'r ysgol am bryd o fwyd efo hogiau Bro Morgannwg. Mi roddon nhw gêm dda i ni, ond diolch byth mai ni wnaeth ennill yn y diwedd!

ELLIS DEEMER
(Bl.7 - Adain Chwith)

I'r Genedlaethol

Mae carfan gref o ddisgyblion yr ysgol wrthi'n ddygn yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir dros wyliau'r Sulgwyn. Dyma'r criw fydd yn ein cynrychioli yn Sir Ddinbych eleni:

Dydd Mercher:

Priplicio: grŵp pop Bechgyn Blwyddyn 9;

Dydd Iau:

Anest Bryn Jones: Dawns Unigol i ferched;

Dydd Gwener:

Sasha Williams: Dawnsio Disgo Unigol Bl. 10-13;

Perlau Brynrefs: Dawns Cyfrwng Cymysg a Grŵp Dawnsio Disgo;

Parti Cai a Parti Hayleigh: Grŵp Dawnsio Gwerin;

Anest Eifion: Dawns Werin Unigol i ferched;

Ensemble Brynrefail: Ensemble 15-25 oed;

Band Pres Brynrefail: Cerddorfa / Band dan 25 oed;

Dydd Sadwrn:

Anest Eifion ac Anest Bryn Jones: Dawns Stepio i ferched;

Elin Mai Jones: Unawd allan o Sioe Gerddorol.

Pob lwc i bawb!

Athletau

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Twrnament Athletau Arfon yng Nghaeau Treborth ger Bangor. Yn unol â'r arfer, aeth Ysgol Brynrefail â charfan gref yno, ble cawsant gryn lwyddiant. Isod rhestrir enwau'r buddugwyr. Bydd y cyntaf a'r ail ym mhob cystadleuaeth yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel sirol yn Nhwrnament Eryri ar 10 Mehefin.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE
Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

Genethod

Dan 15 oed

Heledd Tomos (Bl.9): 2il yn y 100 metr;
Einir Evans (Bl.7): 2il yn y 200 metr;
Victoria Taylor (Bl.9): 2il yn y 1500 metr;
Lauren Jordan (Bl.9): 3ydd yn yr 800 meter;
Ella Christie (Bl.9): 1af yn y clwydi ac 2il yn y naid hir;
Sharon Hanks (Bl.8): 1af yn y naid uchel;
Ashley Mcguigan (Bl.9): 2il yn y picell;
Tim Cyfnewid: cyntaf.

Dan 17 oed

(parwb o flwyddyn 10)

Manon Clarke: 3ydd yn y 200 a'r 300 metr;
Lowri Jones: 3ydd yn y clwydi;
Rebecca Snowden: 2il yn y naid hir;
Hawys Price: 1af yn y naid driphlyg;
Tim Cyfnewid: 3ydd.

Y Bechgyn

Dan 15 oed

(Blwyddyn 9 i gyd)

Rhys McGuire Jones: 2il yn y 200 metr a 1af yn y naid hir;
Adrew Woodcock: 1af yn yr 800 metr ac 2il yn y 1500 metr;
Llion Jones: 1af yn y 1500 metr;
Dafydd Ngaia: 2il yn y pwysau;
Tomos Owen: 1af yn y naid driphlyg;
Tim Cyfnewid: cyntaf.

Dan 17 oed

(Blwyddyn 10 i gyd)

Ioan Jones: 1af yn y 100 metr, 2il yn y 200 metr ac 2il yn y naid hir;
Iwan Arwel Jones: 2il yn y clwydi;
Huw Roberts: 2il yn y bicell;
Gethin Phillips: 2il yn y naid uchel.

Dan 19 oed

Ifan Jams: 1af yn y clwydi, 2il yn y 100 metr a 1af yn y naid uchel.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu ac edrychwn ymlaen at glywed am lwyddiannau'r garfan yn Nhwrnament Eryri.

Adolygiad o EP Derwyddon Dr. Gonzo – Ffandango

Pe bai rhywun yn gofyn pa fath o gerddoriaeth a glywir gan y Derwyddon, rwy'n siŵr y byddai'r ateb yn un amleiriog a lluosillafog. Y rheswm syml am hynny yw ei bod yn anodd crynhoi'r band ifanc hwn i un gair. Mae'r bechgyn yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail sy'n rhannu eu cariad at gerddoriaeth ag astudiaeth lefel uwch gyfrannol, sy'n dipyn o gamp, ond tybed a yw ffrwyth llafur y bechgyn yn hawlio lle anrhydeddus yn y sin roc Cymraeg ar hyn o bryd?

Y gân sy'n agor yr EP yw 'Gladys Drofa Ganol' sy'n canu clochyd holl athrawon Cymraeg ein cenedl. Roedd Gladys yn un o gymeriadau gorau nofel ddylanwadol Alun Jones, *Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr*. Dyma gân sy'n gosod y stamp yn syth. Y mae yma ddylanwad amlwg o fyd Ska ac Affro Bit, wedi'i blethu'n gelfydd

i rhythm ffync cyfoes. Yr hyn sy'n taro rhywun o'r bar cyntaf yw mai cerddorion sydd wrth eu gwaith yma, nid criw o lafnau yn gwneud sŵn. Yn mae eu sain yn gyfrwng i godi pawb oddi ar eu seddau, a champ fyddai i hyd yn oed y mwyaf segur yn ein plith beidio â thapio troed neu law i guriad hypnotig eu sain.

Awn wedyn ar daith trwy gordiau cynnil 'Modryb Bwled' a phlethwaith cymhleth 'Satan yw Sam Tân', gyda digon o gyferbyniad i ddod â ffresni i'r profiad o wrando am y tro cyntaf. Mae'r band yn cydnabod fod Bob Marley, y Specials, Drymago ac Anweledig yn ddylanwad cryf arnynt, ac mae hwnnw i'w glywed yn 'Ska-ba-ba bwt' a 'Stwsh'. Ond y gwahaniaeth ydyw, tra bo rhai grwpiau yn copïo neu efelychu'r rhai hynny fu'n ddylanwad arnynt, mae'r Derwyddon yn defnyddio'u holl ddylanwadau i

ddiben gwell. Maent yn amlwg yn dilyn genre cerddorol debyg, ond mae ganddynt agenda wahanol.

Defnyddio'u dylanwadau (niferus!) a wnant a mynd â'u cerddoriaeth i lefel wahanol.

Y ddwy berl yn yr EP yw 'Talwrn y Beirdd' a '29 gradd selsiws', y trac olaf. Dyma gerddoriaeth hafaidd, melys, sy'n symud yn gelfydd trwy gordiau cymhleth yn ddidrafferth. Trawiadol hefyd yw'r rapio yn y gân olaf, sy'n ymddangos mor naturiol rhywsut. Chwa o awyr iach mewn byd sy'n dioddef yn sgil yr holl rapio gwallus ac annaturiol sy'n gorlifo'r sin ar hyn o bryd.

Uchelgais y Derwyddon yw cael eu cynulleidfia ar eu traed, ac i fod yn rhan o'u perfformiad hwy. Gydag EP cyntaf fel Ffandango, rwy'n siŵr eu bod yn cymryd camau breision tuag at lenwi'r llawr dawnsio.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 25 Ebrill, yn y Sefydliad Coffa Llanrug. Croesawodd y Cyng. Arwel Thomas bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r isgadeirydd, y Cyng. Dafydd W. Thomas am gadeirio y cyfarfod blaenorol yn ei absenoldeb. Cadarnhawyd yn gywir gofnodion cyfarfod mis Mawrth.

Daeth pedwar cais cynllunio gerbron y Cyngor ac ni chafwyd gwrthwynebiad i ddau ohonynt – estyniad llawr cyntaf i 14 Nant y Glyn, Llanrug, a rhoi lolfa wydr yn Gwenmon, Ffordd Crawia, Llanrug.

Ond gwrthwynebwyd unwaith eto y cais i gael chwe tŷ fforddiadwy ger hafod y Glyd, Llanrug. Daeth yr ail a'r trydydd cynllun diwygiedig gerbron gyda'i gilydd. Rhoddwyd y rhesymau fel a ganlyn...

i) fod y ffordd yn gul, prysur a throellog gydag un man yn 'blind spot' peryglus. Dengys y cynllun diweddaraf fod lle i

dri ar ddeg o geir i barcio ar y safle, sy'n golygu fod cymaint â hynny yn fwy o geir yn mynd i ddefnyddio'r fynedfa; ii) fod ffos agored, ddofn dros y ffordd i'r fynedfa sy'n peryglu'r traffig sy'n defnyddio'r lôn;

iii) gan nad yw'r Cynllun Unedol wedi ei fabwysiadu eto, mae'r cais cynllunio tu allan i'r ffiniau datblygu fel y mae ar hyn o bryd

iv) gofynnwyd hefyd ble mae'r dystiolaeth fod angen tai fforddiadwy yn Llanrug (gan gymryd i ystyriaeth Tabl 4 yn y cyfarwyddyd Cynllunio Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd Mai 2005).

Gwrthwynebwyd hefyd y cais i drosi, addasu ac ymestyn cynadeilad allanol yn dŷ ar Fferm Hafodlas, Ceunant, ar y sail y byddai problem trafndiaeth gan fod y lôn mor gul ac y byddai'n anodd iawn i lorïau gyrraedd y safle.

Mae cysgodfan bws newydd wedi ei archebu ar gyfer pentref Cwm y Glo. Mynegwyd pryder am ddiogelwch o gwmpas iard Ffenestri Celtic wrth ymyl Glanmoelyn, gan nad oes math o wal na ffens o'i hamgylch. Bydd y Clerc yn cysylltu ag Adran Gwarchod y Cyhoedd gan fod sgip yno yn llawn o ffenestri a gwydrau wedi eu torri ac mae plant yn mynd yno i chwarae.

Bydd cais yn cael ei anfon i gael torri'r coed sy'n tyfu tros y lôn ger Rallt Deg ar y lôn o Lanrug i Gwm y Glo.

Cafwyd cwyn fod rhan o'r lôn fach sy'n mynd heibio Tyddyn Rhyddid wedi suddo i'r ffos ac fe fyddai hyn yn beryglus i unrwy drafndiaeth.

Mae rhannau o'r wal yng nghae chwarae Nant y Glyn wedi eu difrodi gan bobl ifanc sy'n ymhel yno. Bydd angen trwsio rhain.

Mae angen adfer Llwybr Cyhoeddus rhif 74 (o Finffordd i Gae Rhos) ac ailosod arwydd yno.

Mae Adran Gwaith a

Parhad ar dudalen 12

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDILOTERI AR WERTH YMA!

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Phensiynau y llywodraeth yn bwriadu gwneud i ffwrdd â'r cardiau Cyfrif Sywddfa Bost. Mae hyn yn golygu eu bod yn diddymu rhywbeth maent newydd ei gyflwyno. Os digwydd hyn, mae'n debygol y bydd llawer o swyddfeydd post yn cael eu cau ledled y wlad. Mae deiseb yn y swyddfeydd post yn gwrthwynebu hyn ac mae cyfle i bawb ei harwyddo.

Mae cyflwr anfodddhaol wyneb y priffyrdd yn ardal Cwm y Glo a Llanrug wedi dod i sylw. Hefyd fe basiwyd, beth amser yn ôl bellach, y bydd cyfyngdra o 40m.y.a. ar y briffordd o Ddolafon i Gwm y Glo. Y Clerc i gysylltu i ofyn am gael yr arwyddion cyn gynted â phosibl. Bydd hefyd yn gofyn unwaith eto am gael gostwng lefel rhannau o'r pafin yng Nghwm y Glo ac yn Llanrug ar gyfer defnydd pobl sy'n defnyddio sgwter yr anabl.

Os ydych wedi bod ym Mynwent Llanrug yn ddiweddar, rwy'n siŵr y cytunwch ei bod werth ei gweld. Mae'r gwair yn cael ei dorri'n rheolaidd a gofal yn cael ei roi i'r llwybrau. Mae sawl un wedi tynnu sylw at hyn. Ond yn anffodus, mae rhai pobl yn dal i adael giât fawr y llwybr cyhoeddus ar agor - er bod arwydd arni yn gofyn i bawb ei chau. Os oes defaid yn dianc o'r caeau cyfagos, maent yn cael rhwydd hynt i mewn i'r fynwent ac wedyn yn bwyta'r blodau a'r gwair a maeddu'r lle a chreu llanast. Apêl garedig, drwy gyfrwng yr *Eco*, ar i bawb gau'r giât ar ei ôl. Wedi'r cyfan, does gan y defaid ddim synnwyr cyffredin!

Gwnaed cais rai misoedd yn ôl bellach am gael golau ar y ffordd rhwng Bryngwyn a Chae Rhos, ac hefyd ym mhen stad Glanffynnon. Yn anffodus, nid oes gan Gyngor Gwynedd gyllid digonol i wneud y gwaith ar hyn o bryd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, fydd hefyd yn Gyfarfod Blyneddol, yn Ysgol Cwm y Glo nos Fawrth, 16 Mai, 2006.

Grant Ewropeaidd i Gyllido Myfyrwyr o Gymru Wledig Amcan Un mewn Astudiaeth ar Gadwraeth a Rheoli Tir

Mae gan drigolion ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru hawl i wneud cais am ysgoloriaethau a gynigir gan Ysgol Gwyddorau Amaeth a Choedwigaeth Prifysgol Cymru, Bangor. Ar gyfer cwrs MSc yr Ysgol mewn Cadwraeth a Rheoli Tir y mae'r ysgoloriaethau ac maent wedi'u cyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE).

Mae'r cwrs MSc yn addas ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn cadwraeth a rheoli tir, ac sydd â chymwysterau addas neu â phrofiad sylweddol o weithio yn y maes hwn.

Ysgol Uwchradd Llanrug

Llythyr Agored i:

Ddisgyblion a rhieni Ysgol Gynradd Llanrug
Swyddogion Cyngor Cymuned Llanrug
Drigolion a Phobl Ifanc yr Ardal

Annwyl Gyfeillion
Nôl yn yr Hydref danfonais gylchlythyr i rieni yn gofyn am drafodaeth agored ar y posibilrwydd o sefydlu 'Adran Bentref' neu 'Aelwyd' ym mhentref Llanrug.

Roeddwn yn awyddus i roddi digon o rybudd i drigolion yr ardal am y cynllun er mwyn i ni ysgogi gwirfoddolwyr brwdfrydig lleol i ddod ymlaen i gynorthwyo.

Dros y blyneddau diwethaf mae sefyllfa trefniadaeth ysgolion, gofynion y cwricwlwm, ac amodau gwaith athrawon wedi gwddnewid taffenni amser ysgolion, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i ni redeg Adran Ysgol lwyddiannus sy'n rhoddi gwerth am arian i'r disgyblion. Eleni mae newidiadau mewn amodau gwaith athrawon yn ei gwneud hi'n anoddach i'w rhyddhau i ymarfer canu, dawnio, ayb, yn ystod cyfnodau dysgu.

Mae nifer o aelwydydd ac adrannau lleol ym Mangor ac Arfon wedi dechrau cydweithio yn agos gyda'r ysgol, ee. Ysgolion yn canolbwyntio ar rai elfennau o'r Urdd ac yna'r Adran Bentref ar rai gweithgareddau eraill, er mwyn rhoddi gwerth am arian i'r disgyblion.

Yn sgil yr holl ad-drefnu ysgolion sydd ar y ffordd rwyf yn credu y dylai'r Mudiad hefyd ystyried effaith tymor hir y newidiadau ar drefniadaeth adrannau ysgol, pentref ac aelwydydd. Mae'r amser wedi dod i ni ailedrych ar strwythur yr Adran a chael trafodaeth agored rhwng athrawon, rhieni, swyddogion yr Urdd a phobl ifanc yr ardal i weld beth yw'r drefniadaeth orau i bobl ifanc pentref Llanrug.

Ein nod yw ceisio rhoi'r mudiad yn rhan allweddol o'u bywyd cymdeithasol.

Y cam rhesymol cyntaf i'w wneud yw trefnu cyfarfod agored. Pwrpas y cyfarfod cyntaf fydd trafod strategaeth tymor hir yr Urdd yn yr ardal, a chyfle i ystyried ein cynnig o sefydlu adran bentref neu aelwyd Urdd yn y pentref.

Rwyf yn ymwybodol fod ganddom ni nifer fawr o bobl yn Llanrug sydd yn eithriadol o frwdfrydig tuag at holl egwyddorion cadarn y mudiad dros y blyneddau. Mae ganddom ni ddoniau aruthrol ymysg ein pobl ifanc hefyd, yn ogystal â nifer fawr o bobl sydd wedi cyfrannu i weithgareddau'r urdd yn y gorffennol, ac yn medru cynnig arweiniad fel arweinyddion lleol.

Byddai cael yr holl ddoniau

yma at ei gilydd i sefydlu Aelwyd gadarn yn gam eithriadol o bositif.

Aelwyd sy'n cynnig rhywbeth positif i bobl ifanc y pentref ac yn sylfaen gadarn i'r Eisteddfod Leol i'r dyfodol.

Mae nifer fawr ohonom hefyd yn ymwybodol fod angen rhyw ffocws penodol arall yn ogystal â chlwb ieuenctid y pentref. Mae nifer yma gyda doniau gwahanol - Cerdd, Drama, Chwaraeon, Gweithgareddau Awyr Agored ayb. Drwy gael pawb yn cydweithio gallwn gynnig rhaglen amrywiol a chynladwy i

bobl ifanc yr ardal.

Dyddiad y cyfarfod

Nos Lun, 19 Mehefin am 7 o'r gloch.

Gwahoddiad arbennig i Rieni, Swyddog Datblygu'r Urdd, Cynrychiolaeth o: Staff Ysgol Gynradd Llanrug, Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol, y Cyngor Cymuned ac Ymddiriedolwyr Rygarug. Mae hefyd wahoddiad agored i drigolion ardal Llanrug sydd â diddordeb arbennig yng ngwaith yr Urdd.

Yn gywir iawn

ROBIN WILLIAMS

DYFODOL YSGOLION GWLEDIG GWYNEDD

Cyfarfod Agored 29 Mehefin am 7.30 o'r gloch

Neuadd Ysgol Dyffyn Nantlle

Mae nifer fawr o bobl yn bryderus am gynlluniau'r cyngor sir i newid trefniadaeth ysgolion cynradd Gwynedd, ac mae ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd a rhagor o gyfarfodydd i ddilyn ym mis Medi.

Mae prif sylw'r cynlluniau ar uno mwy nag un ysgol o dan un pennaeth. Golyga hyn:

- y bydd penaethiaid yn colli eu swyddi fel penaethiaid;
- addysgu mwy unffurf a cholli dysgu'r plant am eu hardal leol;
- ddosbarthiadau mwy, llai o sylw i blant unigol;
- lacio cysylltiad hollbwysig rhwng ysgol a chymuned;

- peryglu dyfodol y Gymraeg yng nghefn gwlad Gwynedd;
- na fydd dewis yn y pen draw ond uno ar un safle a/neu gau adeilad/ysgolion;
- mwy o faich gwaith, nid llai, i benaethiaid ysgolion cynradd mwy o faint.

Cofier mai 'Ysgol a hyd at 90 o blant' ydi diffiniad Cyngor Gwynedd o 'Ysgol Fach'.

Mae ffyniant a llwyddiant ein hysgolion gwledig, a'u cyfraniad fel calon ein cymunedau gwledig, wedi bod yn destun balchder mawr erioed, felly pam fod angen newid?

Dowch i'r Cyfarfod ar 29 Mehefin

Atodiad Llanberis



YSGOL DOLBADARN.

Llongyfarchiadau i Huw ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Bydd Huw yn cystadlu ar yr unawd pres yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhuthun dros y Sulgwyn.

Pob dymuniad da i Mr Elwyn Evans sy'n gadael ei waith fel gofawr i gychwyn busnes. Diolch iddo am bob cymwynas a phob llwyddiant efo'r fenter. Mr Peter Fretwell sydd wedi ei benodi i'r swydd a dymunwn y gorau iddo yn ein plith.

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn plannu bylbiau a mesur y tyfiant fel rhan o ymchwil i effaith newidiadau yn y tywydd ar blanhigion led-led Cymru. Roedd 200 o ysgolion yn rhan o'r ymchwil a oedd yn dwyn y teitl 'ditectifs natur'. Trefnwyd yr ymchwil gan y

Llyfrgell Genedlaethol.

Cyn y Pasg cafodd pob plentyn y profiad o blannu coeden ar dir Llwyn Celyn Bach, drwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies. Roedd hwn yn brofiad cofiadwy iawn i'r plant ac yn fodd iddynt werthfawrogi pwysigrwydd coed i ddyfodol ein cymuned a'r ddaear i gyd.

Diolch arbennig i'r rhieni a ddaeth i helpu efo'r gwaith.



Owain a Robert yn cael seibiant ar ôl bod yn ddygn yn tyllu ar gyfer y plannu.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Dim medal yn yr Olympics gafodd rhain –
Gwelwch be mae'r ateb yn y llinell.

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: £40: Mrs Rene Roberts, Pant Teg; £25: Ms Catrin Lowri, 3 Croes y Waun; £10: Mr a Mrs Alfie Jones, Hafod y Rhug.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 4 Mai, yn Festri Eglwys y Waun, cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad gyda Catherine Jones yn Llywyddu. Yn absenoldeb Anne Williams, ymgwymerodd Pat Parry â gwaith yr ysgrifennydd. Croesawodd Catherine Pat, fel un o Ymgynghorwyr y Sefydliad, i egluro'r penderfyniadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Blynnyddol yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Cafwyd eglurhad manwl gan Pat ar y penderfyniadau ac fe bleidleisiwyd yn unfrydol o'u plaid. Diolchodd Catherine i Pat am ei gwaith. Enillwyd y raffl, wedi ei roi gan Iris Evans, gan Nancy Buckley.

Dydd Sadwrn, 13 Mai, daeth 25 o aelodau o rai o Sefydliadau'r sir i'r Waun i ymuno â thaith gerdded 'Clwb y Maes' y Sefydliad, oedd wedi ei threfnu gan Catherine. Roedd aelodau o cyn belled â Llechwedd Conwy wedi ymuno â ni.

Cychwyn o'r Ganolfan i fyny Allt Coed Mawr, i lawr i Stesion Tyddyn Gwydd, i Bont bren ac yna i fyny i Festri'r Capel am de derbyniol iawn, wedi ei baratoi gan aelodau Sefydliad y Waun. Cafwyd prawn pleserus iawn, y tywydd yn sych, wrth lwc.

I roi coron ar y daith clywyd y gog yng Nghoed Cynant. Rhai o'r aelodau ddim wedi clywed y gog ers blynnyddoedd, medda nhw. Gwelwyd y trên hefyd, peth arall dieithr i rai mor bell â Llechwedd! Diolchodd Catherine i bawb am ddod a'i gwneud yn daith gwerth chweil, ac i'r merched am baratoi'r te.

LLONGYFARCHIADAU i Ceri a Malcolm, Stad Bryn Golau, ar enedigaeth merch fach, Cadi Mai. Dyma wyres fach i Yvonne, a gorwyres i Gwendoline a Richard Rowlands, 5 Bryn Golau. DATHLU PEN-BLWYDD.

Dymunwn ben-blwydd hapus ar gyrraedd ei deunaw oed i Wena Williams, 5 Ael y Bryn. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol.

Bydd Miss Katie Roberts (Anti Katie), Stad Tref Eilian, yn dathlu cyrraedd ei 95 oed ar ddydd cyntaf mis Mehefin. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch.

BEDYDD. Mewn gwasanaeth arbennig fore Sul, 23 Ebrill, gyda'r Parch Iorwerth Jones Owen yn gweinyddu, bedyddiwyd Alaw Haf, merch fach Dylan a Bethan, 6 Ael y Bryn, chwaer fach Erin.

YMDDEOLIAD. Dymunwn ymddeoliad hapus i Duncan Brown, Gwelfor, o'i swydd fel Swyddog gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

CYFNOD ARHOLIADAU. Ydy, mae'n amser arholiadau pwysig i'n pobl ifanc mewn ysgol a choleg. Dymunwn y gorau i bob un ohonoch; cewch amser i fwynhau wedyn.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mr John Derlwyn Lewis, Bryn Golau. Dymunwn wellhad buan i chi.

DIOLCH. Dymuna Eurwyn Parc ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniodd ar ôl ei lawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOL WAUNFAWR.

Digwyddiadau'r Tymor hyd yn hyn: Tocynnau Tesco. Rydym yn casglu tocynnau Tesco, Computers for Schools, eto eleni a byddem yn ddiolchgar iawn o'u derbyn. Byddwn hefyd yn derbyn hen getrys inc. Mae rhain werth 10 tocyn yr un ac mae ffonau symudol werth 15-40 tocyn yr un. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 7 oed y pentref a ddaeth yn drydydd yng Nghynghrair Gwyrfaï yn ddiweddar. Da iawn chi! Bu tîm pêl-droed blwyddyn 5 a 6 yr ysgol yn cystadlu mewn Twrnament 5-bob-ochr yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon ddydd lau diwethaf. Cystadleuaeth dda a phawb wedi mwynhau.

Cyflwynwyd rhodd a thusw o flodau yn anrheg ffarfél i Mrs Sian Morris, cynorthwy-ydd Anghenion Addysg Arbennig, ddydd Gwener diwethaf. Dymunwn yn dda iddi gyda'r fenter newydd o agor siop ym Mhorthmadog. Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor

Rhieni ac Athrawon yr ysgol nos Fawrth diwethaf. Diolch i'r saith rhiant a ddaeth. Cafwyd cyfarfod buddiol a llwyddwyd i drefnu rhaglen o weithgareddau am yr wyth mis nesaf. Gan ein bod eisiau prynu 14 o gyfrifiaduron newydd i'r ysgol mae angen codi swm sylweddol o arian.

Dyma'r gweithgareddau rydym angen i chwi eu cefnogi dros y misoedd nesaf:

Mai 19: Taith gerdded nodedig Adran y Babanod i Llynllifon;

Mai 26: Taith gerdded nodedig yr Adran lau o gwmpas Llyn Llanberis;

Mehefin: Noson o Fiwsig yn Nhafarn y Snowdonia Ranger/ Noson Gwis a Diwrnod o Hwyl;

Gorffennaf 6: Raffl Fawreddog a Ffair Haf;

Medi 29: Helfa Drysor;

Hydref 26: Parti Body Shop;

Tachwedd 17: Noson Gwis neu

Rasus;

Rhagfyr 19: Ffair Nadolig.

Diolch o waelod calon i Carmen o'r dafarn, am ei rhodd haelionus o £300.

Cynhelir cyfarfod i'r rhieni ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis o hyn ymlaen yn Nhafarn y Snowdonia Ranger, am 7.30 yr hwyr. Dewch ar 6 Mehefin i gymdeithasu.

Newyddion da i'r rhieni hynny sy'n defnyddio'r Clwb Plant yn y Ganolfan. Ddydd Llun, 5 Mehefin, bydd y clwb yn ailagor dan reolaeth newydd. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Alison ar y rhifau: 07786115772 neu 07788921827. Hoffai'r Pwyllgor ymddiheuro bod y clwb ar gau am gyfnod o fythefnos, ond maent yn hyderus y bydd Alison sydd wedi troi'r clwb yn fusnes preifat, yn mynd i roi'r gofal uchaf i'r plant.




Yn ogystal, gweler lluniau o'r gwaith Mosaic y bu plant yr Adran lau yn ei wneud gyda'r artist, Heather Lowe. Mae'r ddau fosaic yn offenedig erbyn hyn ac maent yn werth eu gweld.



Plant Adran y Babanod ar eu hymweliad â'r Antur i blannu blodau yn ddiweddar.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 30 Ebrill, bedyddiwyd Luned, merch Gwenno Bebb ac Eryl Jones, gan y Parch Elwyn Richards yng Nghapel Caeathro.

GWASANAETHAU'R CAPEL..

Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mehefin:

4: Pentecost

10.00: Mr Maldwyn Thomas

11:11.00: Ysgol Sul

18:10.00: Mr Edward Morus Jones

11.00: Ysgol Sul

25:11.00: Ysgol Sul

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mai oedd:

£40: (41) Lora Jones, 18 Tai Glangwna; £25: (24) Ellen Burke, Arosfa; £15: (110) Anna Williams, Cefn Gof; £5: (21) Arwel Williams, 8 Tai Glangwna.

CHWARAEWR RYGBI O FRI. Llongyfarchiadau i Gwion, Bryn Mair, ar ei ddewisiad fel aelod o garfan rygbi o dan 11 oed, gogledd Cymru.

YSGOL SUL. Ymhellach i'r cyfarfod llwyddiannus efo'r Parch Gwyn Rhydderch, bydd cyfarfod

arall i fanylu ar ffurf Ysgolion Sul Caeathro yn yr hydref, am 8.00 o'r gloch nos lau, 15 Mehefin. Croeso i bawb sydd â diddordeb.

PÊL-RWYD. Cynrychiolwyr Arfon yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn Aberystwyth yn y rowndiau terfynol oedd Ysgol Bontnewydd. O'r saith aelod o'r tîm roedd pump o Gaeathro: sef Gwen Thomas, Aled Evans, Bethany Jones, Lowri Ceiriog a Gwion Eryl.

TRIGOLION NEWYDD. Croeso i Lora Jones sydd wedi symud i fyw i 18 Tai Glangwna. Mae hi eisoes wedi ymuno â'r Tynfa Misol!

SIWRNE SAFF. Ers blynyddoedd mae Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd wedi dweud nad oedd tystiolaeth ynglŷn â cherbydau yn gor-yrtru trwy'r pentref. Rŵan, maent wedi adeiladu (ar gost fawr), safle parcio ar gyfer fan camera 'Siwrne Saff'. Ar ba 'dystiolaeth'?

Fodd bynnaf, edrychwn ymlaen i weld dynion yr heddlu mewn fan yng nghanol y pentref... ac wedyn...?



Bu i ddau o hogia'r fro – Rhodri Williams o Bontrug (ar y dde) a Gwion Eryl o Gaeathro, chwarae i dîm rygbi dan-11 Gogledd Cymru yn erbyn dwyrain Cymru yn Llanidloes yn ddiweddar. Yn anffodus, colli wnaeth Gogledd Cymru o 32 i 0.

CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD PARTI LLESTRI

(Portmeirion, Aynsley,
Denby, ayb)

Gwesty Meifod, Bontnewydd
28 Mehefin 2006
am 7.30 o'r gloch

Tocyn: £2.00

Pryd Bar ar gael cyn y parti

GWASANAETH LLEOL AR GYFER PARTION • PRIODASAU PEN-BLWYDD

BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820



Rhyl 1956 Trip Ysgol Sul Capel Rheoboth

(de i'r chwith): Robert Wyn, Llys Awel; Mair Searell; Rhiannon Searell;
Helen Humphreys, Gwastadnant; Geraint Elis.

(Blaen): Emyr Searell ac Alwyn Elis.



Rhai o blant Ysgol Nant Peris yn yr iard 1957

(de i'r chwith, cefn): Meirion Griffith; Robert John Morris; John Phillips;
Brian Owen; Alwyn (Bon) Thomas; Geraint Elis.

(canol): Robert Franz Thomas; Tom Thomas; Alwyn Elis ag
Emyr Searell Jones.

(blaen): Theresa Ann Thomas, Meirion Thomas, Gareth Jones,
Derwyn Thomas a ?

Diolch i Robert Wyn Williams, gynt o Llys Awel, Nant Peris, a nawr yn byw ym Mangor, am y lluniau a'r enwau.

DIOLCH. Ar ran Teulu Tanbryn, gawn ni i gyd ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd i mam (Nancy) ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn naw deg. Am y llu cardiau, anrhegion a blodau gan y teulu, cymdogion a ffrindiau. Hefyd diolch i staff Cerrig-yr-Afon, Y Felinheli.

Diolch i chi i gyd am gofio amdani.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Margaret Ellis a'r teulu yn y brofedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn yn ddiweddar. Bu farw Selina Morris yn Ysbyty Gwynedd ar yr ail o Fai. Cynhaliwyd gwasanaeth

cyhoeddus yn Eglwys Sant Peris gyda'r Parchedig Robert Townsend a Mr Derek Jones yn gwasanaethu. Yr organydd oedd Dr W. Munro. Y cludwyr oedd John, David, Robin a Hefin. Rhoddwyd blodau gan y teulu agosaf sef Margaret a Tony; Jennifer a Robin; John; David a Tammi; Olwen, Sian, Bethan a Tomos; Ben; Hazel; Twm, Hilary a Meirion; Hefin, Elise, Osian a Rhun; Sian, Michael, Lynne,

David, Louise, Jonathan, Natalie, Tommy a Louie; Lorna, Janet a'r teulu, California.

DIOLCH. Dymuna Margaret, Tony a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i Dr Huw Ll. Roberts, Nyrs Carol a Iona a staff y feddygfa am eu gofal o Mam ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd i'r Parch Robert Townsend, Mr Derek Jones a Dr W. Munro am y gwasanaeth; Mr Gwynfor Jones am y trefniadau a Mrs A. Cumberton am baratoi'r lluniaeth. Diolch i bawb yn yr ardal am fod mor gefnogol yn ystod yr amser trist yma. Casglwyd £900 er cof amdani tuag at elusen Marwolaeth yn y Crud.

DIOLCH. Dymuna Iola Owen, 8 Nant Ffynnon, ddiolch yn fawr iawn i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Manon Pritchard, Fron, ar basio ei gradd 2 efo'r delyn a gradd 3 theori piano – dal ati! Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer, Kate, am orffen yn bedwerydd yn Ras y Faenol yn ddiweddar.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Gwrach Llanberis!

Yn Llyfrgell Llanberis ar 27 Ebrill, yng nghwmni plant Ysgol Dolbadarn, lansiodd Catherine Aran ei llyfr newydd diweddaraf i blant – *Ganthrig Bwt y Wrach* a gyhoeddir gan Gwasg Gwynedd. Lleolir y stori hon yn Llanberis, ac mae hi wedi ei seilio ar wrach go iawn, yn ôl y sôn, a oedd yn byw yn y cyffiniau. Yn stori Catherine,

mae Ganthrig Bwt yn meddwl ei bod hi'n ddel – ond dydy hi ddim. A dweud y gwir, mae hi'n goblyn o hyll. Pan mae trigolion Llanberis yn cynnal cystadleuaeth harddwch, mae hi'n mynnu cystadlu. Ac er mwyn gofalu mai hi sy'n ennill, mae'n dwyn Lleuad, cariad prydfarth Idris y Cawr.



Catherine Aran gyda phlant Ysgol Dolbadarn, a'u masgiau gwrach!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc –
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**



Ar Ben Arall y Lein

Yn ddiweddar 'ma rwyf wedi bod yn teithio tipyn, nid o ran pleser rhag ofn ichi gael y syniad fy mod yn galifantio o amgylch y wlad, ond i ryw bwyllgor neu'i gilydd. Mae'n berffaith wir be mae rhai yn ddweud mai gwlad y pwyllgorau yw Cymru! Ydi'r holl gyfarfodydd yn cyflawni rhywbeth tybed? – Mi fydda i'n cwestiynu hynny yn aml.

Ond fel'na mae pethau a rhaid cymryd rhan neu ni fuasai'r rhan yma o'r gogledd-orllewin yn cael dim llais o gwbl, yn y byd sy'n ymwneud â Physgodfeydd o leiaf.

Un pwyllgor rwy'n aelod ohono yw Pwyllgor Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden Cymru. Bu cyfarfod ddiweddar yn Llanwrtyd Wells, ble cawsom gyfle i weld gwaith Ymddiriedolaeth Afonydd Gwy a Wysg, sy'n prysyr adnewyddu cynefinoedd eu hafonydd. Mae arian mawr yn cael ei roi at gynlluniau o'r fath, a hyn yn ei dro yn gallu hybu cyflogaeth leol. Mae deg yn gweithio yn llawn amser yn cyflawni'r gwaith. Ond, wrth gwrs, statws yw popeth yma, nid yw'r gornel yma o'r wlad yn ffasiynol i dderbyn arian o'r fath – ond rhaid dal i ymgeisio. Efallai rhyw ddydd mi wnaiff y rhai sy'n y Bae 'na sylweddoli be yw'r gwir botensial yma, gyda'r buddsoddiad iawn.

Roedd rhan arall o'r cyfarfod ar lan Afon Irfon. Yno y cyflwynodd Dafydd Evans,

Pennaeth Pysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Strategaeth Pysgodfeydd yr Asiantaeth i Carwyn Jones AC, y Gweinidog Materion Cefn Gwlad. Da o beth os caiff y Strategaeth ei chyflawni.

Yn ddiweddar fe glywsom nad yw'r holl arian a gafodd ei roi at gynlluniau AMCAN 1 yn y fro wedi gallu codi lefel y GDP bron ddim, ac felly mae ein bro ymysg yr ardaloedd tlotaf yn Ewrop. Gresyn o beth! Gwers at y rownd nesaf o arian Ewrop – rhowch arian at waith a wnaiff wahaniaeth. Dydw i ddim am ehangu ar hyn, ond at un enghraifft yn ein cymdeithas ni. Unwaith mae cymorth yn cael ei dderbyn at waith penodol, nid oes eisiau un geiniog wedyn i'w redeg, mae popeth yn gofalu amdano'i hun ac ar lles y fro. Cip o'r bocs sebon unwaith eto, mae gennyf ofn.

Yr wythnos ddiwethaf cefais olwg ar ddeorfa Asiantaeth yr Amgylchedd yn Nolgellau. Yno mae dros 20,000 yr un o eogiaid a sewin bychan yn barod i'w gollwng i'r Peris a'r Hwch. Mae trafodaeth yn mynd ymlaen i edrych a yw'n bosib cadw rhyw 6,000 o'r cywion eog yn y ddeorfa hyd at Hydref eleni, a wedyn eu cludo i'r ddeorfa yn Crawia er mwyn eu magu 'mlaen a'u rhyddhau fel gleisiad yn ystod Mai 2007. Mae'r dull yma o fagu yn cwtogi'r cylch o ddeori hyd at fudo'n ôl i'r afon, o pump i dair blynedd. Cawn weld be fydd yr Asiantaeth

eisiau yn ariannol am y tri mis o fagu ychwanegol.

Derbyniais newyddion ardderchog yn y dyddiau diwethaf, sef bod llywodraeth y Weriniaeth wedi cytuno yn awr y bydd y rhwydo drifft am eogiaid oddi ar arfordir y gorllewin yn dod i ben ar ddiwedd tymor 2006, sef dechrau Awst. Felly mawr yw'r disgwyl i weld be fydd y canlyniadau ar ein dyfroedd yn ystod haf 2007. Mae rheswm yn dweud y bydd gwelliant gan fod y rhwydi yma yn lladd dros 300,000 o eogiaid mewn cyfnod o rhyw ddeg wythnos, a bod 15%, sef 45,000, o'r rhain yn perthyn i afonydd Cymru – dyma yw'r ffigwr sy'n cael ei roi i'r awdurdodau. Y gwirionedd yw fod llawer mwy yn cael eu dal! Cawn weld be ddaw.

Mentraf sôn unwaith eto am

Felin y Cim. Wel, dyma ni o'r ddiwedd yn agosáu at orffen y gwaith. Erbyn diwedd Mehefin eleni, bydd y gwaith adnewyddu ar ben. Fe fydd eisiau rhyw fis neu ddau ychwanegol at ddodrefnu ac ati, felly gobeithio cael agoriad swyddogol (fedra i fentro dweud?) Medi 2006.

Diolch arbennig i Mrs Buddug Hughes, Rhes Victoria, Llanberis, am adael i mi gael copïau o luniau arbennig, yn enwedig o Tommy Rowlands a Jack, brodor o Lundain a fyddai an 'sgota llawer yn y fro. Mae gennyf lythrau gan Jack i Robin Rowlands, a difyr iawn ydynt – ond yn fwy na dim mae yn rhoi gwyneb i awdur yr ohebiaith. Bydd y lythrau gyda'r lluniau yn cael eu defnyddio fel rhan o lyfryn dathlu canmlwyddiant y clwb.

HUW PRICE HUGHES



Dafydd Evans, Pennaeth Pysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd, ar ôl cyflwyno Strategaeth Pysgodfeydd yr Asiantaeth i Carwyn Jones AC, Gweinidog dros Faterion Cefn Gwlad, gyda Moc Morgan yn cadw llygaid. (27 Ebrill 2006)

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cyhoeddiad pwysig:

Mae cysgodfannau bws Penisa'rwaun, Rhydfadog, Brynrefail a'r ddau ym Methel wedi eu hatgyweirio unwaith eto. Gofynnir i aelodau'r cyhoedd ddweud am unrhyw fandaliaeth wrth un ai'r Cyngorwyr neu'r Heddlu.

Cyhaliodd Cyfarfod Blyneddol y Cyngor ar yr 2il o Fai. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Penodwyd Pat Jones yn Gadeirydd ac Elspeth Mitcheson yn Is-Gadeirydd. Yn absenoldeb Pat Jones cadeiriwyd y cyfarfod gan Elspeth Mitcheson. Diolchwyd i Hefin Williams am ei waith a'i gefnogaeth drwy'r flwyddyn a llongyfarchwyd Pat Jones.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Glyn Griffiths yn ymddiswyddo oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymiad i gwblhau cwrs Gradd. Amlygwyd siom o golli Cyngorydd ifanc a phenderfynwyd dymuno'n dda i Glyn. Awgrymwyd hefyd i'r aelodau wneud ymdrech i geisio cael aelodau ieuainc eraill. Mae angen dau aelod dros Ddeiniolen.

Mantolennu Ariannol 2005/2006

Manylodd y Clerc ar gynnwys y fantolennu a'r sefyllfa ariannol. Cyfeiriwyd at y £2,000 a glustnodwyd i gynllun Bethel; y gwaith a archebwyd ar y cysgodfannau bws o oddeutu £2,000; gwnaed y taliad diwethaf o £3,000 i Eisteddfod Eryri o gyllid 2005/06.

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol a'r fantolennu.

Derbyniwyd cofnodion Ebrill fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Atebion Adran Prifffyrdd Gwynedd:

Rhos Wian. Cadarnhad y gwneir gwaith draenio ar gyfer y llwybr. Bydd hyn yn gwella wyneb y lôn dros dro ond cyfrifoldeb y preswylwyr fydd ei chadw mewn cyflwr addas i'w defnydd eu hunain.

Y Ffordd at Bentref Rhiwlas. Mae cynllun yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i uwchraddio ac ymestyn y systemau draenio ac ailwynebu'r ffordd, gobeithir cwblhau'r gwaith yn ystod haf

2006. Penderfynwyd diolch i'r Adran am eu hymateb.

Llwybr 139, Rhiwlas a Cae Chwarae Brynrefail. Gosodir rhybuddion 'Dim Baw Cŵn' yno yn fuan.

Gohebiaethau Eraill

Swyddfeydd y Post.

Derbyniwyd llythyr gan Ffederasiwn y Postfeistri yn cyfeirio at fwriad yr Adran Waith a Phensiynau i ddiddymu'r cerdyn Cyfrif Swyddfa'r Post erbyn 2010. Pwrpas y llythyr yw annog aelodau'r Cyngor i arwyddo'r ddeiseb yn y Swyddfeydd Post. Dywedwyd bod y ddeiseb honno yn uniaith Saesneg, ond arwyddir hi oherwydd pwysigrwydd yr ymgyrch. Penderfynwyd tynnu sylw Bwrdd yr Iaith at y ffaith yma.

Cyhoeddwyd Cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru o'r Cynulliad yng Nghanolfan Gymunedol Craig y Don, Llandudno am 12.30, ddydd Gwener y 19eg o Fai. Y Pwnc fydd 'Darparu Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru'.

Awdurdod yr Heddlu.

Cyhoeddwyd hefyd gyfarfod yr Awdurdod yn Adeilad yr Institiwt, Caernarfon, am 7.00 ar 9ed o Fai 2006. Y drafodaeth fydd 'Diwygio'r Heddlu yng Nghymru'. Penodwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i'w fynychu. Gofynnodd Elspeth Mitcheson am farn yr aelodau fel mater iddynt ei gyflwyno os bydd cyfle.

Dywedodd Len Jones bod y Swyddog Rhawd, yr Heddwes Pete Willdigg, yn cael ei ail-leoli ar ôl cyfnod o adnabod yr ardal a chydweithio gyda ieuenctid. Bydd rhaid i Swyddog newydd ailsefydlu sawl blwyddyn o gysylltiadau. Pwysleisiodd bod gwir angen gwreiddiau, sef plismyn lleol.

Ychwanegodd Huw P. Hughes - pe bai'r Pencadlys yn symud i Gaerdydd byddai'r gogledd yn dioddef yn yr un modd ag y mae'r ardal yma wedi dirywio ar ôl symud Swyddfa'r Heddlu o Gaernarfon i Fae Colwyn.

Cynllunio

Buarth Bunkhouse, Deiniolen. Derbyniwyd rhybudd apêl i gais a wrthodwyd gan Wynedd.

Fferm Bryn Madog, Brynrefail. Cafwyd eglurhad (os gellir ei ddeall) Gwynedd pam bod defnydd eiddo fel aneddle hunangynhaliol yn anghyfreithlon.

Coed Bolyn Mawr, Bethel. Llythyr Gwynedd yn cadarnhau bod saith rhybudd tor-amod cynllunio wedi eu cyflwyno yn erbyn y saethu.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Codi dau dŷ: ger Bryn Tirion, Penisa'rwaun.

Dymchwel Capel ac adeiladu tŷ: Maes y Dref, Clwt y Bont.

Codi Anedd a mynedfa: ger Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Estyniad: Gwynfryn, Bethel.

Mynedfa i'r anabl: 3, Pentre Helen, Deiniolen.

Tipio yng nghefn yr eiddo er mwyn ehangu'r iard: Y Fachell, Llanddeiniolen.

Adeiladu Byngalo: Tir rhif O.S.5466, Seion, Llanddeiniolen.

Estyniad: Rhiwen Farmhouse, Deiniolen.

Tai fforddiadwy. Derbyniwyd canllaw Gwynedd (hanner modfedd o drwch) a thrafodwyd y mater yn fanwl gan amlygu'r peryglon o ganiatáu tai nad ydynt yn fforddiadwy, neu ymgeiswyr nad ydynt yn disgyn i'r categori cywir. Soniwyd am gael ffermwyr i werthu tir y tu allan i'r ffin gynllunio am bris tir amaethyddol. Penderfynwyd paratoi holiadur i'w ddosbarthu i bob cartref yn y gymuned. Addawodd Huw P. Hughes ddarparu ffurflen debyg i'r un a ddosbarthwyd gan Gyngor Y Felinheli eisioes.

Llwybrau. Gofynnodd Hefin Williams am gael ychwanegu llwybr 66 at y rhestr a ddanfonwyd i Wynedd i gael sylw arbennig, a bod y cŵn wedi symud o Garreg y Gath.

Dywedodd Philip Jones bod angen ailwynebu'r llwybr o Gapel Sardis at Ganolfan Dinorwig.

Llwybr Seion at Tan'rallt - mae tua 50 llath o'r llwybr sydd rhwng dwy ffens wedi ei gau gan ddrysi.

Cyfeiriodd Gwilym Williams

at y ffaith bod llwybr 17, o Califfonia Terrace i Bont Brynrefail, wedi ei gau gan dyfiant.

Hysbysir Arolygwr Llwybrau Cyngor Gwynedd.

Materion Eraill

Ysbytai. Cyfeiriodd Aled Green at fwriad yr Adran Iechyd i gau Adran Salwch Meddwl Ysbyty Gwynedd, gan ddefnyddio Ysbytai Llangefni a Chaergybi. Ni fydd y gwasanaeth yma o fewn cyrraedd rhesymol i ardaloedd Arfon a Dwyfor.

Manylodd Len Jones ar y drefn a fwriedir rhwng ysbytai Gwynedd, Clwyd a Maelor, Wrecsam. Cyfnod ymgynghori sy'n bodoli ar hyn o bryd. Gwirfoddolodd Elspeth Mitcheson i ddarllen yr adroddiad a dderbyniwyd.

Dywedodd Huw P. Hughes bod cysgodfannau bws Bethel wedi eu hatgyweirio. Cyfeiriodd hefyd bod angen lleoliad newydd i fainc y mileniwm ym Methel.

Y Teithwyr. Gofynnodd Idris Morris be oedd yn digwydd ynglŷn â'u danfon o chwarel Fachell. Dywedodd Huw P. Hughes bod y mater ar y gweill gan Wynedd. Ychwanegodd bod pryder ynglŷn â ble y byddant yn mynd.

Y Noddfa, Deiniolen.

Adroddodd Len Jones bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i drafod camymddwyn plant o'r Ganolfan, pryd y dywedwyd bod y sefyllfa wedi gwella. O hyn ymlaen bydd rhaid i'r Heddlu gael tystiolaeth gan drigolion o unrhyw gamymddwyn yn y gymuned cyn gweithredu.

Ysgolion. Dywedodd Elspeth Mitcheson y dylai'r Cyngor gael adroddiad o fwriad Gwynedd i Uno / Clystyru / Cau ysgolion. Gofynnodd Richard Llwyd Jones a fyddai modd i gynrychiolwyr y Cyngor ar fyrddau llywodraethwyr ysgolion ateb yn ôl i'r Cyngor?

Penderfynwyd gwahodd swyddog o'r Adran Addysg i gyfarfod y Cyngor i drafod y bwriad.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6ed o Fehefin.

Ffair Greiriau Ynys Môn

Maes Sioe Môn

Mona (ar yr A5)

Dydd Sadwrn a dydd Sul

3 a 4 Mehefin 2006

10a.m. - 5p.m.

Mynediad £2.50

Parcio am ddim

Lluniaeth ardderchog

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Mrs Rhiannon Roberts, 58 Dôl Elidir, ddiolch i'w ghyndogion, ffrindiau a phawb a ddymunodd wellhad buan iddi pan oedd yn Ysbyty Walton, Lerpwl, ac yn Ysbyty Eryri.

LLONGYFARCHIADAU i Lowri Elenid Davies, Bryn Tirion, ar lwyddo ei arholiad Ffliwt gradd 2 gyda theilyngdod.

DYMUNIADAU GORAU i Myfanwy Davies, Stryd yr Wyddfa, ar ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed ar 12 Mehefin.

DIOLCH i bawb a gefnogodd ac a fu'n gwrando ar y Côr yn 'Canu Er Mwyn Pleser' brynhawn iau, 18 Mai, yn Festri Capel Coch.

Daeth côr o Fae Trearddur, sydd ar yr un cwrs, o dan nawdd Coleg Menai, i ymuno â ni yn rhai o'r caneuon, dan arweiniad hwyliog a chadarn Mr Gwilym Lewis, Caergybi.

Casglwyd swm o £62 at Gronfa Lewis Caergybi. Cyflwynwyd tuss o flodau i Mrs Dilys Baylis gan Mr Lewis, am fod y Côr yn canu yr emyn hyfryd, 'Cofiaf Amdanat Ti', y geiriau o eiddo Mrs Baylis a'r dôn gan ei hannwyl ddiweddar frawd, Mr Edwin Lloyd Jones.

Yn bresennol hefyd yr oedd Mrs Gloria Pitt, merch Mrs Nellie Holland, a ysgrifennodd eiriau 'Hiraeth y Cymro' a ganwyd hefyd gan y Côr yn y cyngerdd.

Rhodddwyd y diolchiadau a thraddodwyd y fendith gan y Parchedig John Pritchard a diolch iddo.

DYMUNA Glenys Owen, 9 Stryd y Wyddfa, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cafwyd cyfarfod da iawn gyda'r aelodau i gyd yn bresennol. Cymerwyd y rhan dechreuol gan Nancy Jones a chyflwynodd Anne y gŵr a'r wraig wadd, sef Dr Henry a Dr Nia Holland, Nia yn un o ferched Llanberis. Sgwrs oedd ganddynt ar boen a phob math o wahanol feddyginiaethau i drin y poenau. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Diolchodd Gwynfor Williams i'r ddau ac hefyd i Margaret am y baned a'r raffl. Yr enillydd oedd Heulwen.

Cydymdeimlwyd â Margaret, Hughie a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mam, hefyd â Margaret a Tony Ellis, Nant Peris, a'r teulu, Margaret hithau wedi colli ei mam.

DIOLCH. Dymuna Dilys (Mai), Llanrug, ddiolch i'r teulu i gyd a'i ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DIOLCH i Mrs Sioned Roberts a'r teulu, 11 Stryd Ceunant, am ddosbarthu'r Eco am nifer o flynyddoedd.

Mae angen dosbarthwr newydd ar gyfer Stryd Ceunant a Ffordd Capel Coch. Cysylltwch â Gwilym Evans, Tyddyn Marasley (01286) 870625.


LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams, Carlinig, Ffordd Tŷ

Du, am lwyddo gyda theilyngdod yn ei arholiad 'Practical Musicianship', gradd 5 yn ddiweddar. Da iawn chdi, Mam, Dad a Caryl.

DIOLCH. Dymuna Margaret, Hugh, Sharon a Kevin, teulu y ddiweddar Myfanwy Thomas (Myfi), 2 Bryn Teg, fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad diffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt trwy air, galwad ffôn, cerdyn, llythyr, blodau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Gymdeithas Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn ystod eu profedigaeth lem annisgwyl o golli Mam a Nain annwyl. Diolch i'r Parch Robert Townsend, Mr Derek Jones a Mr Gareth Jones am y gwasanaeth yn yr eglwys, i Mr Aneurin Jones a Staff Gwesty Dolbadarn. Hefyd Mr Gwynfor Jones o E. W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr a pharchus.

HEN ENWAU DIFYR! Yn y flwyddyn 1945 disgynnodd ceffyl y diweddar William Hughes, fferm Bryn Eryri, i lawr hen dwll chwarel yng Nghoed Doctor ger Glynrhonwy, Llanberis. Aeth Mr Hugh Williams, a oedd bryd hynny yn was ffarm ym Mron Eryri, a hefyd y diweddar Mr Gwilym Roberts, Fron Oleu, i lawr y twll gan roi harnes am ganol y ceffyl er mwyn ceisio ei achub. Daethpwyd â chraen i'r fan gan yr RSPCA er mwyn codi'r ceffyl allan o'r twll.

Rhodddwyd tystysgrif i Hugh Williams gan yr RSPCA am ei ddewrder a'i gymorth yn achub y ceffyl. (Gweler y llun isod o Hugh Williams gyda'i dystysgrif a dynnwyd gan Mr Emerson Hughes, Maes Padarn).



Tra'n sgwrsio â Hugh Williams am y digwyddiad, daeth i'm cof nifer o enwau a ddefnyddid gennym ni pan yn blant ar wahanol lefydd yng Nghoed Doctor, er enghraifft: Twll Ceffyl Willi Hughes, Twll Mawr, Llyn Tomos Lewis, Cae Sdip (Steep), Afon Fach, Cae Pasus (Passes), Cae Coed, Cae Doctor, Craig Gopar, Craig Fawr (lle yr arferem sgelfrio o'r top i'r gwaelod ar ein penolau, gan rwygo ein trowsusau), Llwybr Cul, Twll Dan Lôn, Poncan Pil (Peel neu Beal, efallai?) ac yn y blaen. Tybed a fyddai rhai o ddarlennwyr yr Eco yn gallu ychwanegu at y rhestr uchod?

BERT PARRY, SYCHARTH



Côr 'Wabash College Glee Club.'

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS.

Gorlan. Ar 11 Mai ymwelodd y Côr â phentref bychan Gorlan, ger Garndolbenmaen. Er bod y gynulleidfa yn denau iawn, cawsom dderbyniad gwresog i eitemau'r Côr, yr Unawdwyr a'r Sgets. Ar derfyn y noson roedd gwledd arbennig wedi ei pharatoi ar ein cyfer.

Wabash College Glee Club.

Ychydig wythnosau'n ôl derbyniodd y Côr, drwy'r Mynydd Gwefru, gais gan gôr o'r Unol Daleithiau i gael rhannu llwyfan â Chôr Meibion Dyffryn Peris yn ystod eu taith ar draws Prydain Fawr eleni.

Enw'r Côr o'r Unol Daleithiau yw'r 'Wabash College Glee Club'. Sefydlwyd y Coleg yn Crawfordsville, Indiana yn 1832 - i fechgyn yn unig ac ar hyn o bryd

mae tua 850 o fyfyrwyr yn y Coleg.

Ar nos Lun, 22 Mai, cynhaliwyd Cyngerdd gan y ddau gôr, gyda Arwel Jones yn arwain y gweithgareddau, yn Yr Oriel, Mynydd Gwefru. Roedd cynulleidfa dda wedi ymgynnull ar y noson a chawsant wledd wrth wrando ar y ddau gôr yn mynd trwy eu rhaglen.

Wedi'r cyngerdd trefnwyd bwyd ysgafn i'r ddau gôr yng Ngwesty Dolbadarn ac amser i'r aelodau gymdeithasu â'i gilydd.

Fe wnaed casgliad o £187 at Hafan Gobaith yn ystod y cyngerdd.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau mawr i Tomos Parry, Rhiwerfa, Fron Goch, ar ei lwyddiant arbennig yn ei arholiad piano, Gradd 7 gyda Rhagoriaeth. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant i'r dyfodol.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes

Tan y Clogwyn

LLANBERIS, Gwynedd LL55 4LF

Ffôn (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Awst 2006. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

Byddwch yn llawer
gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
Car Service			
BOSCH Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCH. Dymuna Mrs Annie Jones, Eilionwy, Pontrhythallt, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gyfarchion, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 101 oed yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Dafydd Meirion, Pen-y-groes, a fu farw yn ddiweddar. Er mai yn y Bala roedd ei wreiddiau, fe'i magwyd yn Llanrug, gan dderbyn ei addysg yn yr ysgol gynradd ac yn ddiweddarach yn Ysgol Brynrefail. Sefydlodd Wasg y Tir ym Mhen-y-groes, ac yna Gyhoeddiadau Mei, gan hybu llawer ar gyhoeddi llyfrau lleol eu naws. Roedd yn awdur toreithiog, gan ysgrifennu llyfrau taith, nofelau a sgriptio ar gyfer y radio. Yn ddiweddar sefydlwyd Llyfrau Llais ganddo, a chyhoeddi *Llund Wagan o Chwerthin*, sef cyfrol o straeon digri yn ymwneud â byd y chwarel. Roedd yr hiwmor yn y gyfrol yn nodweddiadol ohono yntau hefyd. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y teulu ym Mhen-y-groes ac at ei rieni a'i chwaer yn y Bala.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Siôn R. Williams, Y Gors, Pontrhythallt, ar lwyddo yn arholiad terfynol Gorsedd Beirdd Ynys Prydain mewn leithyddiaeth yn ddiweddar, gyda marc o 79%. Bydd yn derbyn y Wisg Las gan yr Archdderwydd Selwyn Iolen ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe eleni. Fe'i urddir o dan yr Enw yng Ngorsedd Sion o Ewrop.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 9 Mai, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol cangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol. Etholwyd Megan Roberts fel Is-lywydd, Myfanwy Parry fel Is-ysgrifennydd a Margaret Jones fel Is-drysorydd ar gyfer y flwyddyn 2006/2007. Etholwyd Mair Huws, Megan Jones a Phyllis Ellis fel aelodau o Bwyllgor y gangen. Etholwyd y canlynol ar Is-bwyllgorau'r Rhanbarth: Celf a Chrefft a Chwaraeon: Enid Williams, Ann Lloyd a Julie Jones; Anabl: Beryl Thomas; Dysgwyr: Phyllis a Myfanwy. Cytunodd Ann Ifans i fod yn Ohebydd y Wasg a chytunodd

Olwen Huws i barhau fel Dosbarthwr y Wawr.

Diolchodd Bethanne, y Llywydd, i bawb am hwyluso ei gwaith yn ystod y flwyddyn ac i'r rhai a gytunodd i ymgymryd â dyletswyddau Is-swyddogion ayyb am y flwyddyn 2006/2007. Llongyfarchwyd Bethanne ar ddod yn nain unwith eto.

Cyhoeddwyd nifer o ddigwyddiadau: Noson Gelf a Chrefft yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda ar 9 Mehefin; Ffair Haf Is-bwyllgor Anabl ar fore'r 16 Mehefin, gyda'r elw tuag at yr Ambiwllans Awyr; gweithgaredd haf y rhanbarth ar nos Wener, 23 Mehefin, yn Ninorwig yng nghwmni Arwel Hogia'r Wyddfa, a phryd o fwyd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis i ddilyn, a gwibdaith y gangen i Nant Gwrtheyrn ar nos Fawrth, 13 Mehefin, gyda'r bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6.00.

Yn ystod ail hanner y cyfarfod bu pawb yn mwynhau mefus a hufen ac wedyn daeth cyfle i brynu planhigion. Enillwyd y raffl gan Eileen.

* * *

Ar ddydd Sadwrn, 13 Mai, bu dwy aelod o'r gangen, sef Ann Ifans a Mary, yng Ngŵyl Wanwyn y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars. Bu'n ddiwrnod o fwynhad llwyr gyda Rhiannon Parry, Llansannan, yn adrodd hynt a helynt ei chyflwyniadau ar wno; Diane Jones yn rhoi cyflwyniad diddorol ac addysgiadol ar Ganolfan Hanes Uwch-Gwyrfa'i yng Nghlynnogfawr; Dr Mererid Owen, Caernarfon, yn cyflwyno ei hanes ar daith noddedig i Fecsico gydag elusen cancr y fron *Breakthrough*; cwmni Rygarug yn perfformio eu sioe 'Gerallt Gymro' a digon o gyfle i sgwrsio a chymdeithasu gyda ffrindiau a chydabod dros bryd ardderchog canol dydd.

YR YSGOL GYNRADD.

Ymweld â'r Gelli Gyffwrdd. Fel rhan o'u gwaith am y tymor aeth disgyblion Blynnyddoedd 1 a 2 ar ymweliad â Pharc 'Y Gelli Gyffwrdd'. Bu gweld y gwahanol goed a'u cynnyrch yn destun trafodaeth a llawer o waith celf ac ysgrifennu yn y dosbarth.

Cwmni Drama. Daeth y cwmni drama M & M Productions i'r ysgol

i berfformio'r stori 'A Little Princess'. Roedd y plant wedi edrych ymlaen at y perfformiad ac yn ôl eu gwrandawriad a'u hymateb, ni chafodd yr un ohonynt ei siomi.



Yr Urdd. Llongyfarchiadau i Sion Eifion Land, Bl.1, ar ei lwyddiant yn yr Adran Gelf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daeth ei waith Tynnu Llun 2D yn ail drwy Gymru gyfan yn y gystadleuaeth dan 8 oed. Mae'n hynod falch o'r fedal a'r dystysgrif a dderbyniodd.

Dymuno'n Dda. Wrth ffarfelio â Mrs Siân Morris, dymunwn yn dda iddi yn ei menter o agor siop ym Mhorthmadog. Bu Mrs Morris yn gymhorthydd Addysg Arbennig yn yr ysgol am dair blynedd. Croesawn Mrs Meinir Williams, sydd wedi ei phenodi i'w swydd.

Pêl-droed Genethod. Bu tîm pêl-droed genethod yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth 7-bob-ochr yr Urdd yn ddiweddar ar gae bob tywydd Plas Ffrancon, Bethesda. Cafodd y tîm hwyl fawr arni wrth fynd i'r gêm derfynol ond yn anffodus, Ysgol y Gelli enillodd o 2 gôl i 1. Llongyfarchiadau genod am wneud mor dda.

Nofio. Ar 19 Mai aeth rhai o blant yr ysgol i Ganolfan Hamdden Arfon i gystadlu yng Ngala Nofio Arfon. Cafodd nifer o'r plant lwyddiant a daeth yr ysgol yn drydydd. Da iawn chi.

Trawsgwlad. Daeth dros 550 o blant i gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Eryri a Chonwy yn Stad y Faenol ar nos Iau, 4 Mai. Roedd 25 o blant yr ysgol yn cymryd rhan a bu i bob un ohonynt redeg yn ardderchog.

Llongyfarchiadau mawr i Mari

Gibbard a enillodd ras unigol genethod blwyddyn 4.

Pêl-droed Bechgyn. Ar nos Fercher, 26 Ebrill, bu tîm pêl-droed yr Urdd dan 12 yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth 7-bob-ochr Rhanbarth Eryri ym Mhorthmadog. Cafwyd gemau arbennig o gyffrous gyda'r bechgyn yn chwarae yn ardderchog mewn nifer o'r gemau. Da iawn chi, hogia.

DYMUNIADAU GORAU a llongyfarchiadau mawr i Fiona Owen, 33 Glanffynnon, ar ennill Gradd 2.1 gydag anrhyddedd mewn Nyrso.

LLONGYFARCHIADAU i Siân Williams, 35 Nant y Glyn ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 1 gydag anrhyddedd. Da iawn ti.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Gemma Jones, merch Gwilym ac Elaine, ar ei phen-blwydd yn 21ain oed.

PRIODWYD Sheila Owen, 1 Bryn Afon Teras, Crawiau, a Rheinalt Williams, Rhydfadog, Deiniolen, yn Eglwys Llandinorwig yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi.

MARWOLAETH. Ar ôl gwaeledd hir bu farw Derek Jones, mab Mrs Bet Jones, Lyndale, a brawd i Raymond, Beti a Mefyn. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich colled.

DIOLCH. Dymuna Mrs Lynne Jones, 10 Glan Moelyn, ddiolch i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Diolch i bawb.

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PZ

(01286) 673190



CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

CEIR CYMRU


Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynnyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

CROESAIR MEHEFIN



Ar Draws

1. Y mis i losgi bradwr.
3. Gallwch ddefnyddio'r cnofil yma gyda'ch cyfrifiadur.
6. Pryd bydd diwethaf y dydd.
8. Blodyn o Amsterdam.
9. Ffrâm cyfrif.
10. Cynhyrchwr moduron o America.
13. Cewch hwn wedi ei adael wrth eich drws yn ddyddiol.
16. Cewch fêl oddi wrth hwn.
17. Y diwrnod nesaf.
19. Byddwch angen hwn ar ôl ymolchi.
21. Un deilen o lyfr.
23. Mae'n bosib rhoi hylif neu nwy drwy hwn.
26. Lliw tîm pêl-droed Everton.
27. Aur du.
28. Gwyddoniaeth mewn cysylltiad â bywyd.
29. Nadolig, pen-blwydd neu cydymdeimlad.
32. Mae o'ch cwmpas ym mhobman, ond ni allwch ei weld!
34. Gweld rhywbeth cyn iddo ddigwydd.
36. Meithrinfa blanhigion ger Caernarfon (4,4).
37. Pen isa'r map.
38. Coch yw'r bwystfil yma yng Nghymru.
40. Mae'n dod i'ch tŷ unwaith y flwyddyn (4,4).
41. Cartref i'r ci.
43. Llyn ar Ynys Môn.
44. Cewch lawer o rhain ar y to.
46. Bocs heddlu Dr Who.
48. Ffrwyth melyn gyda thro ynddo.

50. 12 o hen geiniogau.
51. Mae o dan eich traed drwy'r dydd.
52. Cartref gydag olwynion.
54. Anifail gyda chynffon droellog.
55. Lle i gadw arian neu oriadau.
56. Mae angen hwn i ymolchi'n iawn.
57. Mae gan y dref yma draeth i'r gorllewin ac i'r dwyrain.


I Lawr

2. Aderyn ifanc.
4. Gêm a pêl gyda panylion.
5. Ewch yma i wella.
7. Siarad.
11. Gallwch dyfu blodau mewn un o'r rhain.
12. Ffrind y garddwr.
14. Buwch ifanc neu ffwl.
15. Mae hwn yn eich cadw'n gynnes.
18. Cymeriad cartwn, ----- Simpson.
19. Peidiwch â thaflu cerrig os yn byw mewn un o'r rhain.
20. Hen chwarel lechi ym Mlaenau Ffestiniog.
22. Castell yn Llanberis.
24. Ffurf o drafeilio gyda dwy olwyn.
25. Cewch hwn o'r fuwch.
30. Hwyl.
31. Llyn neu afon ar Ynys Môn.
33. Pen ucha'r map.
35. Cewch un o'r rhain wrth alw 999.
37. Mae'r rhain yn tyfu o fesen.

39. Digonnol.
42. Mae rhai gwŷr yn poeni os ydynt yn colli hwn.
45. Ffrind.
47. Mae 12 arwydd ynddo.
48. Glanhau.
49. Lliw amgylcheddol.
52. Polo neu T.
53. Lliw tîm pêl-droed Lerpwl.

Cefais wyth cais drwy'r post mis yma ond yn anffodus, dim un yn gywir... Ceisiwch eto y mis yma a gyrrwch eich cais i mi eto: Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY gyda 'Croesair' ar y tu allan i'r amlen, erbyn Mehefin 12. Pob lwc!!
Tec

Atebion Croesair Mai



Cefnogwch
ein Hysbysebwy


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y Sgwâr
Llanrug**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CHWARAEON

Trymaidd ar Foel Eilio...

Yn dilyn glaw cyson dros nos, a chymylau isel gydol forc Sadwrn, doedd yr argoelion ddim yn dda ar gyfer Ras Moel Eilio a gynhaliwyd ar bawn y trydydd ar ddeg o Fai. Er hynny, cliriodd y cymylau erbyn cychwyn y ras am un o'r gloch, ac yr oedd rhai rhedwyr yn cwyno ei bod braidd yn drymaidd i geisio rhedeg.

Cychwynnodd bron i gant o redwyr, rhai ohonynt wedi teithio i Lanberis o gryn bellter i gystadlu yn y ras fynydd hynod boblogaidd hon.

Roedd yn amlwg o'r dringo cynnar ar hyd llethrau Bryn Mawr, mai cystadleuaeth rhwng rhyw dri neu bedwar o redwyr fyddai hi am y brif wob, gydag Alun Vaughan o Glwb Rhedwyr Eryri, yn un o'r rheini. Er hynny, Lloyd Taggart o Glwb Rhedeg Dark Peak, oedd y cyntaf i gopa Moel Eilio, yn cael ei ddilyn gan y rhedwr lleol. Ar draws y grib uwchben Cwm Dwythwch, aeth ymhellach ar y blaen gan ddringo'r Foel Gron a'r Foel Goch cyn disgyn i Fwlch Maesgwm a chychwyn ar y ddringfa olaf i gopa Moel Cynghorion. Dilynai'r pedwar rhedwr nesaf gyda rhyw ddau neu dri chanllath o wagle rhyngddynt, a'r cyfan yn ceisio cau'r bwlch. Ond ofer fu eu hymdrechion, gyda Taggart yn ennill mewn awr a dau funud. Alun Vaughan ddaeth yn ail, gyda Phil Davies o Glwb Borrowdale yn drydydd.

Yn adran y merched, rhedodd Natalie White yn arbennig o dda i orffen yn bedwaredd ar ddeg yn y ras mewn munud llai nac awr a chwarter, gan ddangos pam y mae'n cael ei chysidro fel y ffefryn i ennill pencampwriaeth Prydain eleni.

Roedd Gwynfor Owen, Llanberis, ychydig eiliadau o'i blaen, gan hawlio'r wob i ddynion dros hanner cant oed; a'i berfformiad yn argoeli'n dda ar gyfer Ras yr Wyddfa yn ddiweddarach yr haf hwn. Rhedwyr lleol eraill i ennill gwobrau oedd Arwel Lewis, Bethel (trydydd dros 40 oed) a Maggie Oliver, Dinorwig (merch gyntaf dros hanner cant oed).

...ond Echrydus ar Elidir

Byddai'r hanner cant o redwyr dewr a fentrodd i'r Nant ar gyfer Ras Elidir ar yr ugeinfed o Fai wedi croesawu tywydd trymaidd y Sadwrn blaenorol. Roedd glaw trwm gydol y nos a'r bore, a niwl trwchus yn llenwi Cwm Dudodyn a llethrau'r Elidir yn golygu fod ras galed iawn yn eu hwynebu. Gan fod un o rاس Pencampwriaeth Lloegr yn cael ei chynnal yn Swydd Efrog yr un diwrnod, rhedwyr o Gymru'n

unig oedd wedi herio'r amgylchiadau, a chystadleuaeth rhwng clybiau Eryri a Wrecsam oedd hi am y prif wobrau.

Am unwaith, Wrecsam aeth â hi, gyda Matt Gilbert yn ennill mewn awr a 14 ciliad, yn cael ei ddilyn gan James McQueen o Eryri. Rhedodd David Rees o Fethel yn arbennig o dda, gan gyrraedd copa Elidir yn yr ail safle, ond gorffen yn bedwerydd.

Y ferch gyntaf oedd Caroline Harney o Wrecsam, a oedd yn chweched ar y copa, gan orffen yn nawfed. Yr ail ferch oedd Jayne Lloyd o Bontrug, a enillodd yr adran i ferched dros 40 oed. Maggie Oliver o Dinorwig enillodd yr adran i ferched dros 50 oed. Roedd amseroedd y rhedwyr yn adlewyrchu'r amgylchiadau anodd, gyda'r enillydd hyd yn oed dros ddeuddeng munud tu allan i record y cwrs. Yn wir, roedd amseroedd y mwyafrif yn debycach i ganlyniadau ras yr Wyddfa, sydd tua chwe milltir yn hwy!

Rasus Nos Fawrth

Erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r *Eco* o'r wasg, bydd hanner y gyfres wedi ei chwblhau. Eisoes cynhaliwyd rاسus Foel Lus (Penmaenmawr), Mynydd Mawr, Moel y Gest a Moel Faban. Ddau ddiwrnod cyn plygu'r *Eco*, bydd Ras Dinorwig wedi ei chynnal, gan adael Cwm Bychan a Moel Eilio ar ôl. Ar hyn o bryd mae cystadleuaeth frwd, gyda tua pedwar ugain o redwyr wedi brwydro am safleoedd yn eu gwahanol adrannau. Mae gobaith y gwelir nifer o redwyr lleol yn cipio rhai o'r gwobrau.



Oes Rhywun yn Cofio?

Yn ddiweddar daeth y darlun yma i'm meddiant drwy law Robin Evans, un o gydolygyddion *PAPUR DRE*. Y mae'r llun yn dangos tîm pêl-droed Cwm y Glo yn 1936. Un o'r chwaraewyr - yr ail o'r dde yn y cefn - yw Robert Orritt, tad

Noson Wobrwyo Rhedwyr Eryri

Cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Clwb Rhedwyr Eryri yn Y Caban, Brynrefail yn ystod y mis a aeth heibio. Ymunodd dros hanner cant o aelodau'r Clwb yn y dathliadau, gyda'r gŵr gwadd, Harvey Lloyd, gynt o Hostel Ieuencid Pen Gorrffwysfa, yn cyflwyno'r gwobrau.

Enillwyr lleol oedd Arwel Lewis o Fethel a Maggie Oliver o Dinorwig.

Y Rhedwyr Pob Tywydd

Diolch i Dafydd Whiteside Thomas am yr adroddiad yn ymwneud â'r gwahanol rاسus mynydd yn Eryri yn ddiweddar. Y mae Dafydd ei hun yn dal i redeg yn rhai o'r rاسus.

Tlws yr Eco 2006

Ydy, mae'r amser wedi cyrraedd unwaith eto. Oherwydd llwyddiant y llynedd, rwyf am gadw at yr un drefn. Gan fod y cyrtiau pêl-rwyd ar gael unwaith eto, fe gynhelir y gystadleuaeth i'r merched eleni. Bydd cystadlaethau pêl-droed i'r dan 7, dan 9 a dan 11.

TLWS YR ECO (Ffurflen Cystadlu) 2006

PEL-DROED

Enw'r Tim :

Oedran : -7 -9 -11

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Cynhelir y gemau pêl-droed ar feysydd y Fawnog Rydd, Llanrug a Chae Coed Bolyn ym Methel. Bydd y gemau pêl-rwyd ar gyrtiau Ysgol Gynradd Llanrug.

Fel y llynedd - dim chwyddiant gyda'r Eco - y tâl cystadlu yw £10 y tîm.

Ar gyfer y pêl-droed, bydd pob gêm yn dimau o 8-bob-ochr, gyda charfan o 10.

Gwnaf yr apêl flynyddol i chwi ddychwelyd y ffurflenni mewn da bryd. Y tro yma, y dyddiad cau yw **NOS WENER, MEHEFIN 23**. Awgrymaf fod y rheolwyr yn llungopïo y ffurflen, a llenwi ffurflen ar gyfer pob tîm. Dyma'r dyddiadau pwysig:

PÊL-DROED

- 7: Nos Lun, Gorffennaf 3ydd (Fawnog Rydd)
- 9: Nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd (Fawnog Rydd)
- 11: Nos Iau, Gorffennaf 6ed (Bethel)

PÊL RWYD

- 9 a -11: Nos Lun, Gorffennaf 3ydd (Ysgol Llanrug)

Pigion Wrth Basio

Llongyfarchiadau i dîm dan 12 Ysgol Brynrefail - pencampwyr Cymru! (Gweler Newyddion yr Ysgol)

* * *

Llongyfarchiadau i dîm Llanrug. Hwy yw 'Pencampwyr' answyddogol Bro'r Eco elenni. Da iawn Aled, y pwyllgor a'r chwaraewyr. A yw tîm ieuanc y Darans am godi stêm y tymor nesaf. Canol y tabl i Fethel, a Deiniolen yn brwydro i gadw i fynd. Diolch i'r rhai a ymlafniodd i gynnal y timau, ac i'r llu timau ieuencid.

* * *

Hoffai pwyllgor clwb Bethel ddiolch i bawb a ymatebodd i 'Apêl y Cae'. Mae'r apêl yn dal ar agor, a gobeithir cyhoeddi newyddion da yn y dyfodol agos.

* * *

Daeth ambell lwyddiant yng Nghyngrair Pwl Cylch Caernarfon. Da iawn Chris Thomas o'r Wellington: ail yng Nghwpan Unigol Adran 2; Clwb Gymdeithasol Llanberis: ail yng Nghwpan y Capten; ac yn enwedig i Barri Jones, Penbont: fel y Perfformiwr Unigol Gorau yn y brif adran.

Vernon a Brian Orritt. Aeth Brian ymlaen i chwarae i Birmingham City a Chymru.

Oes rhywun gyda mwy o wybodaeth? A'i tîm dynion neu ieuencid sydd yma? Enwau'r chwaraewyr? Pa gynghrair? Ble roedd y cae? A ddaeth llwyddiannau?